# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Ebrill 2023

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3 Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Cyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-12.10)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

### 2 Datgarboneiddio'r diwydiant dur yn ne Cymru - sesiwn dystiolaeth gyda Tata Steel

(09.30-10.45) (Tudalennau 1 - 17)

Martin Brunnock, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus - Tata Steel

Huw Morgan, Cyfarwyddwr Datgarboneiddio - Tata Steel

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil - Tata Steel

## Egwyl (10.45-10.55)

### 3 Datgarboneiddio'r diwydiant dur yn ne Cymru - sesiwn dystiolaeth gydag undebau llafur

(10.55-12.10)

Alasdair McDiarmid, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol - Community Trade Union

Charlotte Brumpton-Childs, Swyddog Cenedlaethol GMB - Undeb Llafur GMB
Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol - TUC Cymru
Tony Brady, Swyddog Cydlynu Rhanbarthol Unite Cymru gyda Chyfrifoldeb dros Tata yn genedlaethol - Undeb Unite

## 4 Papurau i'w nodi

(12.10)

### 4.1 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(Tudalennau 18 - 21)

Dogfennau atodol:
Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd gyda chwestiynau dilynol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

### 4.2 Datgarboneiddio'r sector tai preifat

(Tudalennau 22 - 58)

Dogfennau atodol:
Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ddatgarboneiddio'r sector tai preifat

### 4.3 Cyfoeth Naturiol Cymru

(Tudalennau 59 - 60)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â bwlch cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru

### 4.4 Tlodi Tanwydd

(Tudalennau 61 - 62)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Rhaglen Tlodi Tanwydd a Chartrefi Clyd

### 4.5 Metro De Cymru

(Tudalennau 63 - 68)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru at y Cadeirydd ynghylch diweddariad ar gyflwyno Metro De Cymru

**4.6 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24**

(Tudalennau 69 - 70)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch gwelliannau i'r dogfennau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith craffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol

**4.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - strategaeth ymgysylltu**

(Tudalennau 71 - 73)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch y strategaeth ymgysylltu ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

**4.8 Adroddiad Archwilio Cymru: Cynhwysiant digidol yng Nghymru**

(Tudalen 74)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at y Cadeirydd ynghylch adroddiad Archwilio Cymru: Cynhwysiant digidol yng Nghymru

**4.9 Fframwaith cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff**

(Tudalennau 75 - 84)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at lythyr y Cadeirydd dyddiedig 3 Mawrth ynghylch y fframwaith cyffredin ar gyfer adnoddau a gwastraff

**4.10 Taliadau bonws gweithredol cwmniau dŵr**

(Tudalennau 85 - 87)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weithredwr Ofwat at y Cadeirydd ynghylch taliadau bonws gweithredol cwmniau dŵr

**4.11 Bil Natur**

(Tudalennau 88 - 97)

Dogfennau atodol:
Briff gan Cyswllt Amgylchedd Cymru ar Fil sy’n gadarnhaol o ran natur (Saesneg yn unig)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(12.10)

## Cyfarfod preifat (12.10–12.30)

## 6 Datgarboneiddio’r diwydiant dur yn ne Cymru – trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

31 Mawrth 2023

Annwyl Julie,

## Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): cwestiynau dilynol

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 29 Mawrth i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am eglurhad a/neu ragor o wybodaeth ynghylch y materion a nodir isod.

### Targedau ansawdd aer

Yn ôl y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân ('y Papur Gwyn') wrth osod targedau ansawdd aer, *rhaid* i Weinidogion Cymru *roi sylw i'r canlynol*: cyngor annibynnol ac arbenigol; Polisi domestig, canllawiau, targedau a gofynion cyfreithiol presennol; Polisi, canllawiau a deddfwriaeth ryngwladol; Y dadansoddiadau economaidd, technegol a chymdeithasol, a dichonoldeb cyflawni targedau; Adroddiadau diweddar gan CNC ar ansawdd aer cenedlaethol, gan gynnwys cyflwr adnoddau naturiol yng Nghymru; Yr adroddiad diweddaraf ar dueddiadau'r dyfodol.

Mae'r dull arfaethedig uchod yn debyg i'r hyn y darperir ar ei gyfer yn adran 32 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mewn perthynas â gosod cyllidebau carbon a thargedau lleihau allyriadau carbon.

Mae adran 3(1) o'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer, geisio cyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol, a rhoi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer.

1. Pam ydych chi wedi dewis peidio â bod yn fwy rhagnodol ynglŷn â'r wybodaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer (i adlewyrchu'r cynnig yn y Papur Gwyn)?

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi “sefydlu panel annibynnol o arbenigwyr, y Panel Cynghori ar Aer Glân, sy'n darparu cyngor ac argymhellion ar y broses gosod targedau a thargedau penodol ar gyfer llygryddion aer â blaenoriaeth yng Nghymru”.

2. Pa ystyriaeth a roesoch i ddefnyddio’r Bil i roi’r Panel Cynghori ar Aer Glân ar sail statudol?

3. Nid oes gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â sefydliadau perthnasol/y cyhoedd cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer. Pam felly?

Yn ôl y Papur Gwyn, dylai rheoliadau sy’n gosod targed ar gyfer deunydd gronynnol mân gael eu gosod o fewn 24 mis i’r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mae adran 3(8) o’r Bil yn darparu bod rhaid gosod rheoliadau drafft o fewn tair blynedd.

4. Pam ydych chi wedi dewis ymestyn yr amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau o flwyddyn?

## Hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer

Mae adran 8 o’r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer.

Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> “Mae natur eang y cynnig yn sicrhau bod ystod eang o opsiynau yn bosibl ar gyfer rhoi’r cynnig ar waith ac yn darparu hyblygrwydd os bydd gofynion o ran gwybodaeth ac ymwybyddiaeth yn newid dros amser. Caiff cynllun cyflawni ei ddatblygu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd ac er mwyn galluogi craffu.”

5. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â’r camau y byddai disgwyl i Weinidogion Cymru eu cymryd i gyflawni’r ddyletswydd yn adran 8, er enghraifft, paratoi a chyhoeddi ‘cynllun cyflawni’ (y cyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol)?

6. Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd/effeithiolrwydd y ddyletswydd, a sut mae’r Bil yn darparu ar gyfer hyn?

## Strategaeth ansawdd aer genedlaethol

Mae adran 9 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio adran 8 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (“Deddf 1995”) at ddiben newid y cyfnod y mae'n rhaid iddynt adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ynddo.

Mae paragraff 3.93 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi’r canlynol:

“…nid yw [y cylch pum mlynedd bresennol] yn caniatáu hyblygrwydd i ymaddasu i delerau’r Senedd, a all neu na all ddilyn y patrwm pum mlynedd. Mae cysoni’r ddyletswydd i lunio strategaeth ansawdd

aer â thelerau'r Senedd yn gwneud y cynnig yn gydlynol ac yn rhoi diben iddo mewn cyd-destun gwleidyddol Cymreig. Mae'n golygu y gallai Gweinidogion ystyried adrodd amgylcheddol sy'n ystyrlon yn ehangach…"

7. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ar adeg benodol (e.e. 12 mis) yn dilyn etholiad Senedd ar wyneb y Bil?

Mae adran 11 o'r Bil yn diwygio Deddf 1995 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol ac 'awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol' i roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, lle y dynodir awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

8. Pa feini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid dynodi 'awdurdod Cymreig datganoledig' yn 'awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol' at ddiben cymhwyso'r ddyletswydd o dan adran 11?

## Rheoli mwg

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar reoli mwg drwy wneud y canlynol:

- mandadu'r defnydd o Orchmynion Rheoli Mwg mewn ardaloedd poblogaeth diffiniedig;
- ymestyn y ddeddfwriaeth ar reoli mwg i gynnwys llosgi yn yr awyr agored; a
- chynnwys gofyniad i Awdurdodau Lleol adolygu Ardaloedd Rheoli Mwg yn rheolaidd.

Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer yr uchod.

9. A allwch egluro a allai Gweinidogion Cymru gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar reoli mwg yn y modd a amlinellir uchod drwy ddefnyddio pwerau presennol, h.y. heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach?

## Codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd

Os gwneir cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd o dan adran 167(3) nad yw'n cael ei wneud (naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) at ddiben lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno, mae paragraff 15 'newydd' o Atodlen 12 i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (fel y'i mewnosodir gan baragraff 6 o Atodlen 2 i'r Bil) yn darparu y bydd cyfran Gweinidogion Cymru o enillion net y cynllun ond ar gael i'w chymhwyso at ddiben hwyluso cyflawni unrhyw bolisïau neu gynigion yn ymwneud â thrafnidiaeth.

Pan wneir cynllun at ddiben lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno yn gyfan gwbl neu'n rhannol, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yr enillion net yn cael eu defnyddio ac effaith ddisgwyliedig y rhain ar ansawdd aer (os o gwbl).

10. A allwch gadarnhau, pan wneir cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn rhinwedd adran 167(3) at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, y gellir cymhwyso cyfran Gweinidogion Cymru o'r enillion net o'r cynllun at unrhyw ddiben?

11. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu fframwaith ar gyfer Parthau Aer Glân?

Gwrthsegura

12. Pam ydych chi o'r farn bod angen y pwerau i ragnodi ystod ariannol, o ystyried bod pŵer i bennu swm cosb benodedig eisoes yn bodoli? Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gynyddu'r tâl presennol yn unig?

13. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith y cynigion ynghylch codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a'r cynigion i atal segura ar bobl o grwpiau incwm is?

Seinweddau

14. Sut mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'seinweddau'?

15. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys diffiniad o 'seinweddau' yn y Bil?

16. Pa ystyriaeth a roesoch i sefydlu Panel Cynghori ar Seinweddau i roi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru (cyffelyb i'r Panel Cynghori ar Aer Glân)?

17. Sut y bydd Gweinidogion Cymru yn monitro effeithiolrwydd y strategaeth seinweddau genedlaethol o ran lleihau lefelau llygredd sŵn?

18. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i adrodd ar gynnydd tuag at weithredu'r strategaeth seinweddau genedlaethol?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 21 Ebrill fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. / We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-1030-23

Llyr Griffiths AS/MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ebrill 2023

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror 2023 a oedd yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ddatgarboneiddio'r sector tai preifat. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith. Gweler yn atodedig ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ddatgarboneiddio'r sector tai preifat

Tabl Cynnwys


Argymhelliad 1. .... 2

Argymhelliad 2. .... 3

Argymhelliad 3. .... 4

Argymhelliad 4. .... 5

Argymhelliad 5. .... 6

Argymhelliad 6. .... 7

Argymhelliad 7. .... 9

Argymhelliad 8. .... 10

Argymhelliad 9. .... 11

Argymhelliad 10. .... 12

Argymhelliad 11. .... 14

Argymhelliad 12. .... 15

Argymhelliad 13. .... 16

Argymhelliad 14. .... 17

Argymhelliad 15. .... 18

Argymhelliad 16. .... 21

Argymhelliad 17. .... 22

Argymhelliad 18. .... 23

Argymhelliad 19. .... 24

Argymhelliad 20. .... 25

Argymhelliad 21. .... 26

Argymhelliad 22. .... 27

Argymhelliad 23. .... 28

Argymhelliad 24. .... 29

Argymhelliad 25. .... 30

Argymhelliad 26. .... 31

Argymhelliad 27. .... 32

Argymhelliad 28. .... 34

Argymhelliad 29. .... 35

**Argymhelliad 1.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol mwy eglur a chryf i'r diwydiant ac i weithredwyr eraill i helpu i ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ar 28 Chwefror 2023. Mae'r Cynllun ar gael yn Sgiliau sero net Cymru | LLYW.CYMRU.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio i lunio a gweithredu trywydd er mwyn datgarboneiddio tai preswyl yng Nghymru. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio ar y cam cyntaf o nodi'r themâu a'r gweithredwyr perthnasol ar lefel strategol. Yna, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn helpu i ddatblygu trywydd a fydd yn rhoi cyfeiriad ac yn ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd camau i ymgysylltu'n strategol â phob rhanddeiliad drwy'r Hwb Perfformiad Carbon Sero Net a gaiff ei lansio ym mis Ebrill. Llwyfan ar-lein fydd yr Hwb a fydd yn cyhoeddi gwersi a ddysgwyd o bob rhan o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Bydd yr Hwb yn gweithio mewn partneriaeth â Sgiliau Llywodraeth Cymru ynghyd â'r pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yr Economi Sylfaenol, Gwerthwch i Gymru a Busnes Cymru a bydd hefyd yn hyrwyddo darpariaeth hyfforddiant.

Yn ogystal, bydd yr Hwb yn helpu arweinwyr diwydiant i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi o gynhyrchion a gwasanaethau sydd eu hangen i ddatgarboneiddio'r 1.4m o gartrefi yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 2.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Os nad yw’r Gweinidog yn bwriadu datblygu a chyhoeddi strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio tai, dylai egluro’r newid yn y sefyllfa ers ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Roedd cynllun Cymru Sero Net, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn amlinellu'r ymrwymiadau strategol cenedlaethol hirdymor o ran datgarboneiddio cartrefi preswyl er mwyn cyrraedd targedau newid hinsawdd 2050. Yn y Cynllun Strategol, mae ymrwymiad i lunio cynllun cyflawni er mwyn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i ddatgarboneiddio'r sector.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio i lunio a gweithredu trywydd er mwyn datgarboneiddio tai preswyl yng Nghymru. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio ar y cam cyntaf o nodi'r themâu a'r camau gweithredu perthnasol ar lefel strategol. Yna, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn helpu i ddatblygu trywydd a fydd yn rhoi cyfeiriad ac yn ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

Bydd y trywydd yn pennu'r cyfeiriad y mae angen anelu ato er mwyn datgarboneiddio cartrefi preswyl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 3.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio tai gynnwys cerrig milltir a thargedau interim allweddol ar gyfer y sector preifat.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd cerrig milltir a thargedau interim allweddol ar gyfer y sector preifat yn deillio o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio i ddatblygu'r trywydd y cyfeirir ato yn argymhelliad 1.

Heb os nac oni bai, mae datgarboneiddio cartrefi dan berchnogaeth breifat, y rhai yn y sector rhentu preifat a'r sector perchen-feddianwyr yn gymhleth; gwyddom y bydd angen modelau ariannu arloesol i ddatgarboneiddio'r cartrefi hynny oherwydd ni all y Llywodraeth dalu'r costau i gyd.

Fodd bynnag, rwyf yn hyderus y bydd y gwersi a ddysgir o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a chynlluniau eraill gan y llywodraeth, yn golygu ein bod mewn sefyllfa gref i ddechrau ar y gwaith mewn deiliadaethau eraill.

Bydd gweithgarwch rheoleiddio arall sydd heb ei ddatganoli hefyd yn helpu i ddatgarboneiddio cartrefi presennol, fel trefniadau rheoleiddio'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni.

Bydd ymyriadau fel cael gwared ar systemau boeleri nwy yn raddol o gartrefi newydd o 2025 ac o gartrefi presennol yn y 2030au yn cael effaith sylweddol ar y cerrig milltir ar gyfer datgarboneiddio cartrefi preifat. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi cadarnhad ffurfiol eto o'r dyddiadau ar gyfer cael gwared ar foeleri nwy newydd o gartrefi presennol.

**Goblygiadau Ariannol** – Ni ellir rhoi gwerth ar hyn o bryd ond nodir na all y Llywodraeth dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio pob cartref yng Nghymru.

**Argymhelliad 4.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnydd tuag at ddatblygu'r cynllun cyflawni erbyn chwe mis fan bellaf ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Dylai hi hefyd ymrwymo i ddarparu adroddiadau cynnydd bob chwe mis wedi hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 2 uchod, mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio i ddatblygu trywydd er mwyn datgarboneiddio tai preswyl yng Nghymru. Mae'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio ar y cam cyntaf o nodi'r themâu a'r camau gweithredu perthnasol ar lefel strategol. Yna, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn helpu i ddatblygu trywydd a fydd yn rhoi cyfeiriad ac yn ysgogi cynnydd tuag at ddatgarboneiddio cartrefi presennol Cymru.

Rwyf yn hapus i roi diweddariadau i'r pwyllgor hwn ar y cynnydd a wneir gyda'r trywydd datgarboneiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 5.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad interim ar ganfyddiadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hyd yma.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r prosiectau a ariennir o dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae TrustMark dan gontract i ddadansoddi'r holl ddata a gesglir o gartrefi a ariennir o dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Caiff data ar berfformiad adeiladau, data mesuryddion clyfar yn ogystal â data ar yr amgylchedd mewnol eu dadansoddi er mwyn deall pa fesurau datgarboneiddio sy'n cael yr effaith orau ar gysur tenantiaid a datgarboneiddio.

Bydd y gwersi a ddysgir o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hefyd i'w gweld yn adran gyhoeddus yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net a gaiff ei lansio'n fuan. Bydd yr Hwb yn rhannu gwybodaeth, arferion gorau, adroddiadau a chanfyddiadau o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a rhaglenni eraill ynghylch pa dechnolegau sy'n perfformio orau.

Caiff un o'r adroddiadau cyntaf a gyhoeddir ei lunio gan Brifysgol Caerdydd. Teitl yr adroddiad ymchwil yw “Living Well in Low Carbon Homes/Byw'n Dda mewn Cartrefi Carbon Isel” a bydd yn rhan o'r gyfres gyntaf o adroddiadau a fydd ar gael ar yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 6.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog egluro pam y dewisodd hi beidio â chynnwys y sector rhentu preifat o ddechrau Cyfnod 3 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Rhaid iddi hefyd esbonio sut a phryd y bydd y dull ôl-osod er mwyn optimeiddio yn cael ei "ymestyn" i gartrefi'r sector rhentu preifat a chartrefi â pherchennog.

**Ymateb: Derbyn**

Mae datgarboneiddio cartrefi preswyl ar gam llawer mwy datblygedig yn y sector tai cymdeithasol o gymharu â'r sector cartrefi preifat. Nid ar hap a damwain y mae hyn wedi digwydd.

Rydym wedi targedu datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol yn gyntaf, gan gytuno i flaenoriaethu buddsoddiad mewn tai cymdeithasol drwy'r arian sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Mae'r sefyllfa bresennol lle mae llai o weithgarwch yn y sector rhentu preifat a'r sector perchen-feddianwyr yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn dechrau â thai cymdeithasol cyn symud ymlaen i ddeiliadaethau eraill, yn bennaf oherwydd mai yn y sector hwn y mae gennym y mwyaf o sbardunau.

Mae sianelu buddsoddiad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio drwy landlordiaid cymdeithasol wedi ein helpu i 'brofi a dysgu' sut mae datgarboneiddio cartrefi'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn ogystal â gwerthuso'r agweddau technegol ar y gwaith a'r agweddau sy'n ymwneud â thenantiaid, mae costau gwirioneddol yn cael eu monitro a'u defnyddio fel rhan o ragdybiaethau modelau ar gyfer datgarboneiddio cartrefi preswyl yn y dyfodol. Dyma fydd y sbringfwrdd i ddechrau datgarboneiddio cartrefi mewn deiliadaethau eraill yn y dyfodol.

Yn nhermau cartrefi preifat, mae camau cychwynnol wedi cael eu cymryd ond nid i'r un graddau ag a welir yn y sector tai cymdeithasol. Fodd bynnag, rwyf yn ffyddiog mai'r camau rydym yn eu cymryd yn y maes cartrefi preifat yw'r camau cywir.

Sicrhau cysondeb ac adeiladu ar ein rhaglenni fel y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sicrhau mai ein gweithgareddau ym maes cartrefi preifat yw'r rhai cywir ac adeiladu ar ein dull gweithredu ehangach yw'r peth cywir i wneud.

Nid ydym yn gweithio mewn ffordd wahanol i weinyddiaethau datganoledig eraill wrth dargedu gwaith datgarboneiddio at y rhai â'r lleiaf o allu i dalu ar adeg pan fo costau'n cynyddu. Bydd gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn helpu'r teuluoedd hynny â'r angen mwyaf drwy'r argyfwng costau byw.

Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi dechrau ymgysylltu â phob math o berchnogaeth, drwy gefnogi Cynllun Lesio Cymru i landlordiaid preifat yn ogystal â phrosiectau Tai Cymdeithasol a Pherchen-feddiannydd cyfunol a ariannwyd ar gam 2 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn Sir Ddinbych.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 7.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl iddi egluro'r rheswm wrth ymateb i'r adroddiad hwn.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae fy swyddogion yn llunio datganiad polisi i mi ei adolygu a'i gymeradwyo. Rwyf yn ei ddisgwyl yn fuan. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi'r datganiad polisi ochr yn ochr ag ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y llynedd ac Adroddiad Arolygu ac Argymhellion. Ni chaiff y rhain eu cyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth, ond yn fuan wedi hynny.

Disgwylir i'r broses gaffael ar gyfer y cynllun newydd a gaiff ei arwain gan y galw ddigwydd yn ddiweddarach eleni ac ymgysylltir yn gynnar â'r gadwyn gyflenwi a darpar gyfranwyr eraill er mwyn sicrhau ymateb cryf ac amserol. Mae digwyddiad 'cwrdd â'r cyflenwr' wedi'i drefnu ar gyfer diwedd mis Ebrill. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i amlinellu ein cynlluniau a chasglu gwybodaeth werthfawr o fyd diwydiant.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd yr Ymateb Polisi yn arwain at fanyleb ar gyfer y gwasanaeth newydd ac mae costau'r gwasanaeth hwn wedi'u cynnwys mewn cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 8.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i ymateb Llywodraeth Cymru i'w hymgynghoriad ar iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd roi rhagor o fanylion am y cynllun Nyth newydd, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, capiau cost a mesurau ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y gwasanaeth newydd yn ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganfyddiadau adolygiad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn 2022 ynghyd ag adolygiadau tebyg.

Rwyf yn disgwyl Adroddiad Adolygu ac Argymhellion yn y dyfodol agos a fydd yn crynhoi'r adolygiadau niferus o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad cyhoeddus 2022 ar Raglen Cartrefi Clyd yn y dyfodol. Y bwriad yw cyhoeddi'r ddau yn fuan, ar y cyd â datganiad polisi. Bydd y datganiad polisi yn rhoi mwy o fanylion am y cynllun newydd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae costau'r gwasanaeth newydd wedi'u cynnwys mewn cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 9.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae’n bwriadu mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth ar ôl i gynllun presennol Nyth ddod i ben a lansio’r cynllun newydd yn ei le. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu’r gwaith ar y cynllun newydd fel bod modd ei lansio erbyn diwedd haf 2023 fan bellaf.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Yn fy natganiad llafar ar 8 Tachwedd 2022, dywedais sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar gyfer pob deiliadaeth.

Y bwriad yw parhau i ddilyn dull gweithredu ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a charbon isel, gan roi mesurau ar waith i wella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi incwm isel lleiaf thermol effeithlon yng Nghymru.

Cyflawnir hyn mewn dwy ran:

Rhan 1 – Drwy ddod â'r broses o gaffael gwasanaeth newydd a gaiff ei arwain gan y galw (i gymryd lle Cartrefi Clyd Nyth) ymlaen, byddwn yn sicrhau parhad er mwyn helpu'r rhai â'r lleiaf o allu i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau proses gyfiawn a fforddiadwy o newid i gartrefi carbon isel.

Rhan 2 – Datblygu dull datgarboneiddio sy'n ymdrin â'r stoc dai gyfan er mwyn darparu strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector.

Ym mis Chwefror, eglurais ymhellach fy mod yn disgwyl caffael cynllun newydd a gaiff ei arwain gan y galw (Rhan 1), sy'n ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a thlodi tanwydd, cyn diwedd y flwyddyn. Ni fydd unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglen newydd a'r rhaglen bresennol. Byddwn yn sicrhau parhad er mwyn helpu'r rhai â'r lleiaf o allu i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw.

Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar gefnogi'r aelwydydd â'r lleiaf o allu i dalu (y rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu tlodi tanwydd yn bennaf) yn y sectorau perchen-feddianwyr, rhentu preifat a chydweithrediaeth dai, er mwyn sicrhau proses gyfiawn a fforddiadwy o newid i gartrefi carbon isel. Bydd y ffocws yn parhau ar ddull gweithredu ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a disgwylir y bydd yn parhau i fabwysiadu dull asesu tŷ cyfan fel y Rhaglen bresennol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae costau'r gwasanaeth newydd wedi'u cynnwys mewn cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 10.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog roi esboniad manwl o'r rhaglen newydd arfaethedig i gefnogi'r broses o ddatgarboneiddio tai (y cyfeirir ati yn ei llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol), gan gynnwys pryd y caiff ei lansio, sut y bydd yn cefnogi'r sector 'gallu talu', a'r lefel buddsoddiad a fydd ar gael i gyflwyno'r rhaglen dros y tair blynedd nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Yn fy natganiad llafar ar 8 Tachwedd 2022, dywedais sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar gyfer pob deiliadaeth.

Y bwriad yw parhau i ddilyn dull gweithredu ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a charbon isel, gan roi mesurau ar waith i wella effeithlonrwydd ynni'r cartrefi incwm isel lleiaf thermol effeithlon yng Nghymru.

Fel yr eglurwyd uchod, bydd Rhan 1 yn canolbwyntio ar gefnogi'r aelwydydd â'r lleiaf o allu i dalu (y rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu'n wynebu tlodi tanwydd yn bennaf) yn y sectorau perchen-feddianwyr, rhentu preifat a chydweithrediaeth dai, er mwyn sicrhau proses gyfiawn a fforddiadwy o newid i gartrefi carbon isel. Disgwylir i'r broses gaffael ar gyfer y cynllun newydd a gaiff ei arwain gan y galw ddigwydd yn ddiweddarach eleni. Mae disgwyl y bydd £35m ar gael i'r Rhaglen newydd yn 2024/25.

Y nod yw darparu cyllid gwerth £270m o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio dros dymor y llywodraeth hon (gyda thua £130m wedi'i fuddsoddi hyd yma). Yn 2022-23, dyrannwyd £60m i landlordiaid cymdeithasol ar sail cyllid fformiwla gan sicrhau bod pob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn cael cyfle i gael cymorth drwy'r rhaglen.

Cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn 2002 er mwyn gwella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae SATC eisoes wedi gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi cymdeithasol, sy'n fantais fawr yn yr argyfwng costau byw presennol.

Bydd y safon newydd arfaethedig ar gyfer SATC 2023 yn adeiladu ar gyflawniadau ardderchog ei rhagflaenydd. Bydd gofynion gwrthdlodi wrth wraidd y safon newydd o hyd a bydd hefyd yn gwella effeithlonrwydd ynni er mwyn cefnogi cysur a llesiant tenantiaid.

Mae ein cynigion ar gyfer SATC 2023 yn canolbwyntio ar denantiaid ac yn adeiladu ar y cyflawniadau ardderchog hyd yma ond byddwn yn parhau i ofyn am fwy o ran effeithlonrwydd ynni, effeithlonrwydd dŵr a bioamrywiaeth.
Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu'n ddwys â'r sector, rydym yn disgwyl cyhoeddi safon newydd SATC yn ddiweddarach eleni.

Rydym bob amser wedi bod yn glir y byddem yn canolbwyntio'n gyntaf ar y stoc tai cymdeithasol ond y byddem yn ceisio defnyddio'r gwersi a ddysgir o'r gwaith hwnnw er mwyn llywio camau i ddatgarboneiddio sectorau eraill.

I'r perwyl hwn, rydym yn gweithio ar nifer o linynnau sy'n cefnogi deiliadaethau eraill, er enghraifft:

Bydd yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net yn helpu i gyflwyno cartrefi carbon isel a sero carbon yn gyflymach yng Nghymru drwy ddod yn ffynhonnell ddibynadwy o arferion gorau, gan ddarparu cyfeiriad, cysondeb a mwy o ymdeimlad o ddiben i ddatblygwyr a landlordiaid cymdeithasol.

Mae Banc Datblygu Cymru wedi bod yn gweithio i ddeall anghenion y farchnad a gofynion cyflawni ar gyfer datrysiad cymorth i gynyddu gweithgarwch ôl-osod mewn cartrefi perchen-feddianwyr yng Nghymru yn y sector ‘gallu talu’.

Rydym yn bwriadu treialu cynllun yn 2023-24 a gaiff ei ddefnyddio i ‘brofi a dysgu’ yn y farchnad a chanolbwyntio ar y meysydd lle mae'r arian yn debygol o gael yr effaith fwyaf.

Mae Cynllun Lesio Cymru yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu £30m o arian cyfalaf dros 5 mlynedd ar gyfer Cynllun Lesio Cymru fel y gall awdurdodau lleol lesio eiddo yn y sector rhentu preifat gan landlordiaid. Fel rhan o'r rhaglen honno, mae cyllid ychwanegol o hyd at £5,000 ar gael i gyrraedd y safonau angenrheidiol a/neu wella gradd EPC eiddo tuag at radd C. Mae hyd at £25,000 o arian grant ar gael ar gyfer eiddo gwag.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 11.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog ymrwymo i fonitro effaith y "dull cydweithredol" at ECO4 ar gyfranogiad awdurdodau lleol yn y cynllun ac ar lefel cyllid ECO i Gymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Hoffai Llywodraeth Cymru annog cydweithio a chysondeb o ran prosesau wrth weithredu ECO Flex yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i gymell cyflenwyr ynni i gynnal prosiectau yng Nghymru, yn helpu awdurdodau lleol i'w cyflwyno ac yn sicrhau'r budd mwyaf i aelwydydd agored i niwed yng Nghymru.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac awdurdodau lleol i ddatblygu ffordd o ddarparu cymorth cychwynnol a pharhaus er mwyn sicrhau ymgysylltiad awdurdodau lleol. Dylai hyn sicrhau'r buddiannau mwyaf i berchnogion tai yng Nghymru. Mae'r pwyslais ar gydweithio a datblygu canllawiau a gwersi i'w dysgu ar gyfer yr awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol am fonitro eu lefelau cyfranogiad eu hunain a glynu wth unrhyw drefniadau monitro a bennir gan Lywodraeth y DU.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Mae costau'r cymorth i'r sector cyhoeddus wedi'u cynnwys mewn cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 12.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog archwilio gyda Sefydliad Ynni UCL y potensial ar gyfer defnyddio ei fodel stoc adeiladau Cymru gyfan fel ffordd o ganfod aelwydydd sy’n gymwys ar gyfer cyllid ECO ac ar gyfer unrhyw gyllid grant yn y dyfodol i gefnogi ôl-osod effeithlonrwydd ynni. Dylai adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo’n ymarferol.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi contractio TrustMark i ddadansoddi data ar y cartrefi a ariennir fel rhan o'r rhaglen. Mae TrustMark yn gweithio'n agos gyda Sefydliad Ynni Coleg Prifysgol Llundain ar fodelau stoc.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â TrustMark ynghylch model stoc Cymru gyfan a fydd yn golygu y gellir canfod aelwydydd a all ddefnyddio sianeli ariannu eraill fel arian ECO neu drefniadau ariannu yn y dyfodol sy'n targedu cymorth tuag at waith ôl-osod effeithlonrwydd ynni.

**Argymhelliad 13.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU ymhlith perchnogion tai yng Nghymru, a sut y mae’n gwneud hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'n debygol y bydd cynlluniau Llywodraeth y DU, fel ECO a'r Cynllun Uwchraddio Boeleri, yn ddefnyddiol yng Nghymru ac mewn sawl ffordd, maent yn ategu'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru. Fodd bynnag, o gofio mai Whitehall sy'n gyfrifol am y cynlluniau hyn, nid oes unrhyw waith hyrwyddo penodol wedi'i wneud heblaw am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth y DU ond mae gwasanaethau fel Nyth yn cyfeirio at y cynlluniau hyn lle bo hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau y gall pobl Cymru gael y cymorth a'r cyngor cywir iddynt hwy wrth iddynt wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi a datgarboneiddio eu cartrefi. Ymhlith ein rhaglenni cynhwysfawr presennol mae:

Cartrefi Clyd - Mae cynllun Cartrefi Clyd Nyth Llywodraeth Cymru yn darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Yn 2021-22, buddsoddodd Llywodraeth Cymru £24.5 miliwn yn effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru, gan helpu i leihau biliau tanwydd a gwella iechyd a llesiant yr aelwydydd sydd â'r angen mwyaf.

Fel rhan o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, cynigir cyngor diduedd am ddim i aelwydydd a gellir eu cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth a chynlluniau ehangach. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Uwchraddio Boeleri Llywodraeth y DU.

Yn ystod 2021-22, rhoddodd Rhaglen Cartrefi Clyd, Cynllun Nyth gyngor diduedd am ddim i 15,777 o aelwydydd a'u cyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth. Cafodd 5,127 o aelwydydd becyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim fel gwres canolog, boeleri, inswleiddio neu solar ffotofoltaig.

**Argymhelliad 14.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru ar ganiatâd cynllunio ar gyfer pympiau gwres gyda’r bwriad o lacio’r gofyniad na all unrhyw ran o’r pwmp gwres gael ei osod o fewn tri metr i ffin eiddo, yn unol â Lloegr.

**Ymateb: Derbyn**

Gall pympiau gwres ffynhonnell aer gael eu gosod o fewn 3 metr i ffin ond mae angen cael caniatâd cynllunio i wneud hynny. Gwyddom fod yr amser y mae'n ei gymryd i wneud cais am ganiatâd cynllunio a'r gost o wneud hynny yn atal rhai perchnogion tai a gosodwyr rhag dewis pympiau gwres. Felly, mae bodolaeth hawliau datblygu a ganiateir yn bwysig er mwyn annog mwy o bobl i fanteisio ar y dechnoleg hon.

O safbwynt cynllunio, effeithiau sŵn ac effeithiau gweledol yw prif effeithiau pympiau gwres ffynhonnell aer. Mae hawliau datblygu a ganiateir yn golygu nad oes angen gwneud cais cynllunio am fod caniatâd cenedlaethol wedi cael ei roi yn barod. Wrth roi hawliau o'r fath, mae angen ystyried yn ofalus sut y gellir osgoi effeithiau cynllunio annerbyniol fel sŵn a llwyddwyd i wneud hynny drwy sicrhau bwlch o 3 metr oddi wrth eiddo cyfagos.

Yn achos rhai eiddo, yn enwedig y rhai mewn strydoedd teras, mae'r bwlch o 3 metr yn golygu na ellir defnyddio hawliau datblygu a ganiateir. Rydym yn ymrwymedig i adolygu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer pympiau gwres ffynhonnell aer ond er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni ddeall yn well sut y byddai lleihau'r bwlch 3 metr yn effeithio ar sŵn. Fel cam cyntaf, rydym yn gwneud gwaith ymchwil, sef “Sŵn Pympiau Gwres Ffynhonnell Aer a Hawliau Datblygu a Ganiateir yng Nghymru”. Bydd y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru yn cyfrannu at astudiaeth ehangach o'r sŵn a gaiff ei greu gan bympiau gwres ffynhonnell aer a gynhelir gan Lywodraeth y DU. Defnyddir casgliadau'r gwaith hwn pan gaiff adolygiad cynhwysfawr o'r hawliau datblygu a ganiateir ei gynnal.

**Argymhelliad 15.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o safonau rheoleiddio i gynyddu gweithgarwch ôl-osod yn y sector preifat, gan gynnwys a yw'n cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gynyddu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn y sector rhentu preifat.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mewn egwyddor, mae gwella effeithlonrwydd ynni eiddo preifat yn rhywbeth i'w gefnogi gan y bydd yn helpu tenantiaid a pherchnogion tai i leihau biliau cyfleustodau uchel ac yn helpu i gyfrannu at ein hamcanion ehangach o ran Newid Hinsawdd.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor, nid yw rheoleiddio Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ac er bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynigion i gynyddu'r Safonau hyn i EPC C ar gyfer Eiddo Rhentu Preifat erbyn 2025 (ar gyfer gosodiadau newydd) a 2027 (ar gyfer eiddo o dan denantiaeth) nid yw wedi cadarnhau'n ffurfiol o hyd y bydd y cynnydd hwn yn cael ei gyflwyno, nac wedi cyhoeddi unrhyw fanylion ynghylch unrhyw gymorth neu eithriadau a allai fod yn gymwys er mwyn cefnogi gweithgarwch ôl-osod.


Cefnogir y cynnig i gyflwyno Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni newydd ar gyfer eiddo rhentu preifat, ac wedyn eiddo perchen-feddianwyr, mewn egwyddor ar yr amod bod Llywodraeth y DU hefyd yn rhoi digon o gymorth ariannol (e.e. grantiau a benthyciadau di-log) er mwyn helpu i dalu costau gwelliannau fel y gellir sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael eu cefnogi a bod mesurau ôl-osod priodol yn cael eu rhoi ar waith. Mae angen i unrhyw reoliadau ganiatáu digon o amser i wneud gwaith ôl-osod ac, felly, efallai nad yw cyflwyno gofyniad i gyrraedd EPC C o fewn y 3 i 5 mlynedd nesaf yn ymarferol. Yn ogystal, byddai angen i Lywodraeth y DU ddarparu adnoddau ariannol ar gyfer awdurdodau lleol fel y gallant gymryd camau gorfodi effeithiol.

Ar hyn o bryd, mae'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn galw am EPC E ar gyfer eiddo rhentu preifat, oni bai bod esemptiad dilys ar waith (er enghraifft, adeilad rhestredig neu gostau ôl-osod afresymol o uchel). Yn ôl data gan Rhentu Doeth Cymru (gweler y tabl isod), ar hyn o bryd, mae gan 65.6% o eiddo rhentu preifat yng Nghymru sgôr EPC D neu'n is. Yn ogystal, mae 70% o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ond yn berchen ar un eiddo yn unig, sy'n cyfrif am draean o'r eiddo rhent cofrestredig, a allai olygu y bydd gwaith ôl-osod i fodloni gofynion EPC C yn ddrutach gan na fyddai modd gwneud arbedion effeithlonrwydd wrth gaffael gwaith na chynhyrchion yn unigol.

| EPC Rating | Properties | % |
|---|---|---|
| A (92+) | 84 | 0.0% |
| B (81-91) | 8262 | 4.7% |
| C (69-80) | 51797 | 29.6% |
| D (55-68) | 78801 | 45.1% |
| E (39-54) | 31700 | 18.1% |
| F (21-38) | 3029 | 1.7% |
| G (1-20) | 1245 | 0.7% |

Mae'r data ar broffil oedran eiddo rhent yn rhoi esboniad rhannol o'r ganran uchel o eiddo â sgoriau EPC isel. Mae'r tabl isod yn dangos bod y mwyafrif o'r eiddo rhent yng Nghymru yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn 1929 ac, felly, maent yn llai tebygol o fod â waliau ceudod neu gyrsiau atal lleithder. Felly, mae'r gost o wella sgoriau EPC y mwyafrif o'r eiddo rhent hyd at EPC C yn debygol o fod yn afresymol o uchel, oni bai bod Llywodraeth y DU hefyd yn darparu cymorth ariannol i gyd-fynd â'r newid rheoleiddio, os caiff ei gyflwyno.

Heb gymorth ariannol o'r fath, gall landlordiaid sy'n wynebu biliau uchel ddewis trosglwyddo'r costau i'r tenantiaid dros amser drwy gynyddu'r rhent, neu fuddsoddi yn yr ymyriadau rhataf i gyrraedd EPC C, nad ydynt o reidrwydd yn briodol i'r math o adeilad dan sylw. Er enghraifft, gosod inswleiddio sy'n gwaethygu lleithder neu lwydni gan nad oes modd i'r adeilad anadlu, neu osod pwmp gwres ffynhonnell aer heb wella effeithlonrwydd thermol ffenestri, drysau neu'r atig yn ddigonol, a all arwain at gynnydd yng nghostau ynni'r tenantiaid. Mewn rhai achosion, gall landlordiaid geisio gwerthu eiddo cyn i'r rheoliadau newydd ddod i rym, a allai olygu y bydd llai o eiddo ar gael i'w rhentu mewn ardaloedd penodol.




**Goblygiadau Ariannol:**

Os bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno gofyniad i sicrhau EPC C heb ddarparu cymorth ariannol, efallai y bydd angen ystyried grantiau a/neu fenthyciadau i gefnogi gwelliannau. Mae'n anodd nodi costau posibl ar hyn o bryd, ond os bydd y gwaith addasu yn costio rhwng £7,000 a £10,000 fesul eiddo, a bod landlordiaid unigol yn berchen ar 33% o eiddo (a bod gan 65% o'r eiddo hwn sgôr EPC is na C), yna gall fod angen rhwng £313m a £448m.

**Argymhelliad 16.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog:
▪ esbonio pryd a sut y caiff Cynllun Lesio Cymru ei ehangu i gefnogi uchelgeisiau datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru; a
▪ darparu manylion lefel y buddsoddiad a fydd ar gael i gyflawni'r Cynllun dros y tair blynedd nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Amcan Cynllun Lesio Cymru yw sicrhau 1% o'r stoc eiddo rhentu preifat yn yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi cofrestru â'r Cynllun erbyn 2027. Pennwyd targedau isel yn fwriadol ar gyfer Blwyddyn 1 er mwyn rhoi amser i'r awdurdodau lleol ddatblygu adnoddau a phrosesau mewnol er mwyn cynnwys eiddo yn y Cynllun. Ym Mlwyddyn 2, disgwylir y bydd nifer sylweddol uwch o eiddo yn ymuno â'r Cynllun er mwyn cyrraedd targed 2027 o fwy na 1,500 eiddo.  Os bydd pob awdurdod lleol yn cofrestru â'r Cynllun, yna byddai'r targed yn cynyddu i fwy na 2,000 eiddo.

Rydym wedi ymrwymo £30m i Gynllun Lesio Cymru a thros y tair blynedd nesaf, bydd £17.2m ar gael fel rhan o raglen graidd y Cynllun. Yn ogystal, gall eiddo a fydd yn ymuno â'r Cynllun gael grant ychwanegol o hyd at £5,000 o dan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i wella effeithlonrwydd ynni hyd at radd EPC C, lle bo grant i wella cyflwr yr adeilad wedi cael ei roi o dan Gynllun Lesio Cymru hefyd.

**Goblygiadau Ariannol:**

Mae costau Cynllun Lesio Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio eisoes wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth Tai ac Adfywio.

**Argymhelliad 17.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos arweiniad ac ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ar y lefel uchaf i sicrhau bod anghenion adnoddau awdurdodau lleol Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni yn cael eu deall a'u diwallu'n llawn. (Tudalen

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd a swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a cheisio dylanwadu arni er mwyn sicrhau y bydd adnoddau digonol yn cael eu rhoi mewn perthynas â chydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth, gwnaed ceisiadau i siarad â Llywodraeth y DU ar lefel Gweinidog/Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn aros am ymateb.

**Goblygiadau Ariannol:**

Caiff cyllidebau presennol eu defnyddio i dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 18.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog, ar y cyd â Rhentu Doeth Cymru ac awdurdodau lleol, adolygu’r trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodaeth y Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni, gyda golwg ar nodi meysydd posibl i’w gwella. Dylai’r adolygiad gynnwys, fel isafswm:

- rôl Rhentu Doeth Cymru o ran codi ymwybyddiaeth o’r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ymhlith landlordiaid ac o ran nodi eiddo sy’n tanberfformio, a
- sut y caiff gwybodaeth am eiddo sy’n tanberfformio ei rhannu rhwng sefydliadau i sicrhau cymorth wedi’i dargedu a/neu gamau cydymffurfio a gorfodi.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel yr awdurdod trwyddedu, mae gan Rhentu Doeth Cymru ddata ar raddau EPC eiddo rhent yng Nghymru, yn ôl ardal awdurdod lleol, ac mae wedi cyhoeddi'r data hynny. Dangosfwrdd Perfformiad Ynni Rhentu Doeth Cymru - Rhentu Doeth Cymru (llyw.cymru)

O dan ofynion a.6 o Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012, mae'n ofynnol i landlordiaid roi copi o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni i denantiaid ar ddechrau tenantiaeth. Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i uwchgyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth er mwyn ymchwilio ymhellach iddynt pan fo cwynion wedi dod i law.

Ers 2020, pan fo landlord yn ailgofrestru eiddo, mae angen iddo gadarnhau i Rhentu Doeth Cymru bod ganddo dystysgrif EPC sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni neu fod ganddo esemptiad dilys.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn archwilio ei gronfa ddata i ganfod yr eiddo hynny nad oes ganddynt dystysgrif EPC neu sydd â gradd EPC sy'n is nag E a bydd yn rhannu'r wybodaeth hon â'r awdurdodau lleol perthnasol fel y gellir cymryd camau wedi'u targedu.

**Goblygiadau Ariannol:**

Dim – caiff costau gwaith monitro a gorfodi Rhentu Doeth Cymru eu talu drwy'r ffioedd trwyddedu a chofrestru a delir gan landlordiaid ac asiantiaid.

**Argymhelliad 19.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog egluro pam na chynhaliwyd arolwg tai Cymru yn 2022. Dylai ymrwymo i gynnal arolwg cenedlaethol parhaus, yn debyg i’r English Housing Survey, gan gynnal yr arolwg cyntaf cyn gynted ag sy’n ymarferol. Os nad yw’r Gweinidog yn fodlon ymrwymo i arolwg o’r fath, dylai roi esboniad manwl o’r rheswm pam.

**Ymateb: Derbyn**

Mae sail dystiolaeth gadarn a dealltwriaeth lawn o natur y farchnad dai ac aelwydydd yng Nghymru yn hollbwysig i'n gwaith datblygu polisi. Er enghraifft, mae'r Arolwg Cyflwr Tai diwethaf a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2017 wedi llywio'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer diweddariadau i'r safon ar gyfer cartrefi cymdeithasol, Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC2023), ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer gwaith i asesu lefelau tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae deall y stoc dai yng Nghymru yn hanfodol er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd gennym yng Nghynllun Gweithredu Cymru Sero Net a sicrhau proses bontio deg i ddulliau gwresogi carbon isel dros y blynyddoedd nesaf.

Cytunaf fod angen Arolwg Tai Cymru a gaiff ei gyhoeddi'n barhaus ac yn rheolaidd. Mae opsiynau ar gyfer Arolwg Tai Cymru yn cael eu datblygu. Gallai mynediad gwell at ddata gweinyddol er mwyn datblygu ein Hadnodd Dadansoddi'r Stoc Dai ac adnoddau arolygu eraill ddarparu llawer o'r data sydd eu hangen, ar y cyd ag arolygon tai rheolaidd. O ystyried y pwysau cyllidebol presennol, bydd angen ystyried y gost o baratoi a chyhoeddi Arolwg Tai Cymru yn ofalus iawn.

**Goblygiadau Ariannol:**

Caiff yr opsiynau posibl a'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal Arolwg Tai Cymru eu nodi fel rhan o'r achos busnes er mwyn penderfynu ar y dull gweithredu mwyaf priodol.

**Argymhelliad 20.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella’r ddealltwriaeth o’r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn y sector preifat heb fynediad at ddata clyfar, a sut y bydd yn gwneud hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddata monitro cadarn sy'n cyfateb i'r data a gesglir gan fesurydd clyfar neu'n rhagori arnynt. Mae gwybodaeth fonitro sy'n cael ei chynhyrchu gan synwyryddion monitro'r Rhaglen Tai Arloesol a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn casglu data ar ddefnydd ynni, cynhyrchu ynni a storio ynni drwy System Ynni Deallus a synwyryddion amgylcheddol mewn cartrefi a ariennir gan grant.

Mae TrustMark dan gontract i ddadansoddi data'r ddwy raglen a ariennir gan grant. Ar hyn o bryd, dim ond data ar landlordiaid cymdeithasol sydd gan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Fodd bynnag, bydd data'r Rhaglen Tai Arloesol yn cynnwys gwybodaeth am gartrefi perchen-feddianwyr ac mae'n cael data amgylcheddol a data o fesuryddion clyfar ar gyfer y grŵp deiliadaeth hwnnw.

Yn gyffredinol, ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng lefelau defnydd ynni ac allyriadau carbon cartrefi preifat a chartrefi sydd â thenantiaid cymdeithasol. Er enghraifft, bydd perchen-feddiannydd sydd wedi ymddeol a thenant mewn tŷ cymdeithasol sydd wedi ymddeol yn meddiannu ac yn gwresogi'r cartref yn yr un ffordd fwy neu lai. Yn yr un modd, bydd gweithiwr allweddol llawn amser sy'n berchen ar ei gartref ei hun a gweithiwr allweddol mewn tŷ cymdeithasol yn defnyddio tua'r un faint o ynni.

Nid dim ond monitro a deall patrymau defnyddio ynni mae'r rhaglenni; maent hefyd yn cael adborth gan denantiaid ar ba dechnolegau sy'n gweddu orau i'w ffordd o fyw a pha ymyriadau datgarboneiddio a mathau o adeiladau sy'n perfformio orau neu sy'n fwyaf cyfleus i denantiaid.

Caiff gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd ei gyhoeddi'n fuan. Teitl yr adroddiad ymchwil yw “Living Well in Low Carbon Homes/Byw'n Well mewn Cartrefi Carbon Isel” a bydd yn un o'r adroddiadau ymchwil a fydd ar gael ar yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net pan fydd y wefan yn fyw. Bydd yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau o gartrefi perchen-feddianwyr.

**Argymhelliad 21.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog roi manylion ei thrafodaethau diweddaraf gyda Llywodraeth y DU ar gael mynediad at ddata mesuryddion clyfar. Dylai hi ymrwymo i barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU ar y mater hwn hyd nes y gellir dod i benderfyniad.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi contractio TrustMark i ddadansoddi data ar y cartrefi a ariennir fel rhan o'r rhaglen. Daw'r data o synwyryddion amgylcheddol, Systemau Ynni Deallus a Mesuryddion Clyfar (SMETS2). Caiff data mesuryddion clyfar eu dal gan Data Communication Company ac maent yn rhan o drafodaeth barhaus ar ran Llywodraeth Cymru rhwng TrustMark a'r Adran Sicrwydd Ynni a Sero Net.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 22.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog ymrwymo i weithredu'r argymhelliad a wnaed yn adroddiad Jofeh mewn perthynas â Chofnodlyfrau Cartref/Pasbortau Adnewyddu Adeiladau. Wrth wneud hynny, dylai archwilio'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor hwn y gallai Pasbortau Adnewyddu Adeiladau, drwy weithio gyda'r sector preifat, fod ar gael i berchnogion tai am ddim.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Er y gallaf werthfawrogi bod gwerth cynhenid i sicrhau bod pob cartref yng Nghymru yn cael arolwg a Phasbort Adnewyddu Adeiladau, nid mater syml mohono.

Er enghraifft, nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer ar hyn o bryd i fandadu bod pob cartref yn cael pasbort, a byddai'n cymryd amser i gael mandad o'r fath. Byddai'r gost o gynnal yr arolygon hynny ym mhob cartref yn sylweddol hefyd, ac mae'n rhaid ystyried a oes digon o syrfewyr i gyflawni'r gwaith  Ar hyn o bryd, rydym yn cynyddu'r sgiliau a'r gweithlu sydd eu hangen ac rydym yn gweithio'n agos gyda TrustMark yn y maes hwn.

Ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr tai cymdeithasol gynnal asesiad o'u stoc i gyd gan nodi'r radd bresennol ar gyfer cynhesrwydd fforddiadwy ac allyriadau carbon eu stoc i gyd. Mae angen llwybr ynni targed ar gyfer pob cartref hefyd. Caiff y dull gweithredu hwn ei gefnogi a'i atgyfnerthu gan ofynion cam 3 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a disgwyliwn iddo gael ei roi ar waith ym mhob deiliadaeth a gefnogir gennym yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau da o landlordiaid cymdeithasol yn defnyddio Pasbortau Adnewyddu Adeiladau a ddatblygwyd gan y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i helpu i gynllunio gwaith yn y dyfodol, ond mae'r broses ar y cam treialu o hyd. Wrth i rowndiau eraill y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio gael eu cyflwyno, bydd y gofyniad i lunio 'Pasbort Adeilad' ar gyfer pob cartref a ariennir yn parhau.

Byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgir o'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu defnyddio yn y sector preifat hefyd. Felly, os bydd y Pasbort Adnewyddu Adeiladau yn helpu i ddatgarboneiddio tai perchen-feddianwyr yn gyflymach, yna byddwn yn ystyried hynny yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd – byddai angen defnyddio cyllidebau rhaglenni presennol i dalu unrhyw gostau ychwanegol a nodir.

**Argymhelliad 23.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog egluro a fydd strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i gymryd camau mewn perthynas â newid hinsawdd yn arwain at gymryd camau uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r angen i leihau effaith cartrefi Cymru ar yr hinsawdd, a sut y bydd yn gwneud hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Yn dilyn ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ddiwedd 2022, caiff Strategaeth newydd ar ymgysylltu â'r cyhoedd i gymryd camau mewn perthynas â newid hinsawdd ei chyhoeddi yn ystod yr haf. Yr amcanion fydd meithrin gwybodaeth a bwriad ac annog pawb yng Nghymru i gymryd camau mewn perthynas â newid hinsawdd, a bydd gwaith cyfathrebu a chymorth polisi'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar helpu i oresgyn rhwystrau i weithredu.

Nod y gwaith cyfathrebu cychwynnol fydd cadarnhau ymddygiadau gwyrdd mewn meysydd lle mae gwaith ymchwil yn dangos y gall pobl weithredu ac y maent yn fodlon gwneud hynny, a defnyddio deunydd cyfathrebu 'cynhesu' i baratoi aelwydydd ar gyfer y camau anos a fydd yn cael effaith ganolig i uchel. Bydd y deunyddiau cyfathrebu yn seiliedig ar naratif canolog a fydd yn tynnu sylw at y modd y bydd y newidiadau hyn o fudd i'n ffordd o fyw, a byddant wedi'u strwythuro o dan bedair thema allweddol gan gynnwys dewisiadau Ynni Cartrefi Gwyrdd (gan gynnwys ymddygiadau lleihau galw a dewisiadau uwchraddio cartrefi), dewisiadau Trafnidiaeth Gwyrdd, dewisiadau Bwyd Gwyrdd a dewisiadau Defnydd Gwyrdd. Caiff yr ymgyrch genedlaethol a'r wefan eu lansio yn yr haf hefyd.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff y costau eu tynnu o gyllideb y rhaglen bresennol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch yr hinsawdd.

**Argymhelliad 24.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Perfformiad Tai Carbon Sero Net ar gael i bob deiliadaeth cyn gynted ag y caiff ei sefydlu.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net yn helpu i gyflwyno cartrefi carbon isel a sero carbon yn gyflymach yng Nghymru drwy ddod yn ffynhonnell ddibynadwy o arferion gorau, gan ddarparu cyfeiriad, cysondeb a mwy o ymdeimlad o ddiben i ddatblygwyr a landlordiaid cymdeithasol.

Cafodd manyleb wreiddiol yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net ei phennu cyn argymhellion y pwyllgor hwn a dechreuodd y broses dendro i benodi partner cyflawni yn ystod haf 2022.

Cytunwyd ar ddyraniad cyllidebol ar gyfer tair blynedd gyntaf yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net ac, felly, os caiff gofynion ychwanegol eu cyflwyno ar gyfer yr Hwb, bydd angen arian ychwanegol i dalu am gost y gofynion hynny.

Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda grŵp llywio'r Hwb Perfformiad Carbon Sero Net a'r partner cyflawni i sicrhau bod yr Hwb a'i wefan gysylltiedig ar gael a'u bod yn darparu gwybodaeth a chyngor i bob deiliadaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 25.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog egluro sut y mae’n bwriadu codi ymwybyddiaeth o berfformiad yr Hwb Perfformiad Tai Carbon Sero Net ymhlith rhanddeiliaid a pherchnogion eiddo gyda golwg ar sicrhau y gallant fanteisio’n llawn ar y gwasanaethau cyngor a chymorth sydd ar gael.

**Ymateb: Derbyn**

Lansiwyd yr Hwb Perfformiad Carbon Sero Net ddechrau mis Ebrill. Mae Llywodraeth Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cymru wedi trefnu amserlen o sesiynau ymwybyddiaeth yn ystod digwyddiadau amrywiol â rhanddeiliaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hyn y bydd yr Hwb yn ei gyflawni yn ystod ei chwech i 12 mis cyntaf.

Y nod yw y bydd yr Hwb yn ganolfan ragoriaeth i ysgogi'r broses o ddatgarboneiddio cartrefi newydd a chartrefi presennol, a bydd yn canolbwyntio i ddechrau ar gartrefi a ariennir gan arian cyhoeddus fel y nodir yn y fanyleb wreiddiol.

Bydd yr Hwb yn rhannu gwybodaeth ac arferion gorau o'r Rhaglen Tai Arloesol a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ynghylch pa dechnolegau sydd wedi perfformio orau ymhlith grwpiau daliadaeth gwahanol a mathau gwahanol o aelwydydd. Disgwylir lansio cronfa ddata A i Y o gynhyrchion adnewyddadwy yn ystod gwanwyn 2024.

Rhan arall o gylch gwaith yr Hwb fydd codi ymwybyddiaeth o arferion gorau o bob cwr o'r DU a hybiau sero net eraill yn rhyngwladol er mwyn cynyddu graddfa gwaith datgarboneiddio yma yng Nghymru a'i gyflymu.

Mae gan yr Hwb arian i drefnu a chynnal hyfforddiant a digwyddiadau chwarterol er mwyn sicrhau bod landlordiaid, contractwyr a'r gadwyn gyflenwi yn ymwybodol o'r technolegau adnewyddadwy diweddaraf a gwahodd gweithgynhyrchwyr y technolegau hynny i ddigwyddiadau er mwyn uwchsgilio'r sector.

Bydd Llywodraeth Cymru yn codi ymwybyddiaeth o'r Hwb yn rheolaidd hefyd drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol pan fydd gwasanaethau newydd ar gael a phan fydd yr Hwb yn cyrraedd cerrig milltir penodol.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 26.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net erbyn mis Mawrth 2023 fan bellaf. Os nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru egluro’r rheswm wrth ymateb i’r adroddiad hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddodd Gweinidog yr Economi y Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net ar 28 Chwefror 2023. Mae'r Cynllun ar gael yn Sgiliau sero net Cymru | LLYW.CYMRU.

**Argymhelliad 27.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog, gan weithio gyda’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, asesu ymarferoldeb defnyddio’r Dreth Gyngor a’r Dreth Trafodiadau Tir i gymell gwaith ôl-osod effeithlonrwydd ynni fel blaenoriaeth. Rhaid i’r Gweinidog adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi’i gwblhau. (Tudalen 57)

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Y Dreth Gyngor

Mae'r adroddiad yn nodi'r rhaglen sylweddol o ddiwygiadau sydd ar waith ar hyn o bryd i gyflwyno system decach a mwy blaengar, sy'n un o ymrwymiadau'r llywodraeth a gaiff ei adlewyrchu hefyd yn y Cytundeb Cydweithio. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi amlinellu'r cynlluniau mewn Ymgynghoriad Cam 1 a bydd yn cynnal ymgynghoriad manylach fel rhan o Gam 2 yn ddiweddarach eleni. Y nodau y cytunwyd arnynt yw sefydlu system ddiwygiedig sy'n:

- Gosod baich treth llai anflaengar ar aelwydydd;
- Cynnwys diweddariadau rheolaidd mewnol i gadw'r dreth yn deg yn y dyfodol, gan ddefnyddio technoleg fodern sy'n seiliedig ar ddata;
- Parhau i ariannu gwasanaethau hanfodol sydd o fudd i bawb, ond sy'n helpu pawb mewn angen;
- Mwy tryloyw i drethdalwyr;
- Treth sy'n parhau i gysylltu pobl â chymunedau lleol.

Yr uchelgais yn y tymor byr i'r tymor canolig yw dylunio system ddiwygiedig o fandiau a chyfraddau treth, adolygu disgowntiau ac esemptiadau ac adolygu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn ogystal ag amrywiaeth o welliannau technolegol a gweinyddol eraill. Yn ymgynghoriad Cam 1, cynigiwyd y caiff rhai o'r diwygiadau hyn eu cyflawni ym mis Ebrill 20215. Mae cyflawni'r rhaglen hon yn dasg enfawr ond mae'r dystiolaeth a'r arbenigwyr yn cytuno mai dyma un o'r pethau gorau y gall Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn lleihau anghydraddoldebau cyfoeth.

Y prif ffocws uniongyrchol ar gyfer y dreth gyngor, felly, yw creu system fwy blaengar. Mae ystyriaethau cychwynnol yn awgrymu bod y mathau o gartrefi sy'n cael yr anhawster mwyaf i ennill gradd A EPC, neu'r cartrefi a fyddai angen yr addasiadau mwyaf, yn fwy tebygol o berthyn i fandiau isaf y dreth gyngor a'i bod yn fwy tebygol o bosibl fod aelwydydd incwm isel yn byw ynddynt. Byddai'r ystyriaethau hyn yn gweithio mewn cyferbyniad â'r prif ffocws ar gyfer diwygio'r dreth gyngor, sef lleihau anghydraddoldebau cyfoeth. Mae'n aneglur o'r data hyd yma hefyd a fyddai newidiadau treth deddfwriaethol a pharhaol o bosibl yn y dyfodol yn well na mathau eraill o ysgogiadau neu gymhellion ariannol byrdymor a hyblyg sy'n fwy uniongyrchol. Fodd bynnag, mae rhaglen ddiwygio'r dreth gyngor hefyd yn cynnwys uchelgais tymor hwy i barhau i ystyried dulliau amgen o gynyddu refeniw treth lleol yn y dyfodol, gan gynnwys dyluniadau treth eraill a syniadau fel treth gwerth tir leol.

Treth Trafodiadau Tir

Mae tua 4% o gartrefi yng Nghymru yn destun trafodiadau ar gyfartaledd bob blwyddyn.  Ar hyn o bryd, y trothwy ar gyfer talu treth trafodiadau tir ar eiddo preswyl yw £225,000 sy'n golygu nad oes angen talu unrhyw dreth ar oddeutu 60% o drafodiadau eiddo (oni bai bod y cyfraddau preswyl uwch yn gymwys). Felly, tua 1.6% o stoc dai Cymru sy'n destun trafodiadau bob blwyddyn ar gyfer perchen-feddiannaeth ac sy'n gorfod talu treth.  Codir y dreth ar gyfraddau ymylol, felly ni fydd angen talu llawer o dreth ar y trafodiadau hynny sydd werth ychydig dros £225,000. O ganlyniad, hwyrach mai ychydig iawn o gymhelliant treth sydd i wneud gwaith ôl-osod. Mae'r 10% o gartrefi uchaf o ran gwerth yn dechrau ag eiddo preswyl sy'n costio tua £400,000 (ac mae cartref sy'n costio £500,000 o fewn y 3% o gartrefi uchaf eu pris).  Ar hyn o bryd, codir treth trafodiadau tir o £10,500 ar eiddo sy'n costio £400,000.

Mae'r mwyafrif o gartrefi sydd fwyaf tebygol o fod angen eu haddasu, a lle byddai cost y gwaith addasu hwnnw yn uchel o gymharu â gwerth y cartref, yn fwy tebygol o fod islaw'r trothwy ar gyfer talu treth trafodiadau tir.  Mae'n debygol y bydd unrhyw gymhellion a ddarperir drwy ryddhad yn darparu'r cymhelliant a'r budd mwyaf i'r rhai sy'n prynu eiddo drud.  Gall unrhyw newidiadau i'r dreth trafodiadau tir er mwyn codi cyfraddau 'cosb' ar gartrefi nad ydynt yn ynni-effeithlon olygu, yn achos y rhai na allant dalu am y gwelliannau angenrheidiol, na fydd perchnogion yn gallu gwerthu eu cartrefi.  Felly, rhaid ystyried sut y gellir sicrhau bod y dreth trafodiadau tir yn cael ei defnyddio mewn ffordd flaengar i gyflawni canlyniadau polisi.

Treth codi refeniw yw'r dreth trafodiadau tir yn bennaf ac yn ystod y flwyddyn 2022-23 hyd yma (Chwefror 2023), mae wedi codi £270 miliwn.  Prin yw ei gallu i newid ymddygiad.     Gallai lleihau'r refeniw hwnnw effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Felly, byddai'n bwysig ystyried yr ysgogiad hwn ochr yn ochr ag ysgogiadau neu gymhellion ariannol eraill sy'n fwy uniongyrchol.

**Argymhelliad 28.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Gweinidog gyflymu'r gwaith i ddatblygu cynigion ar gyfer y datrysiadau ariannol a ganlyn ar gyfer y sector 'gallu talu': Ynni Glân a Asesir fesul Eiddo/Cyllid Cysylltiedig ag Eiddo; benthyciadau dim llog/llog isel; a benthyciadau rhyddhau ecwiti. Dylai hi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, a phob chwe mis wedi hynny, nes bod y gwaith hwn wedi'i gwblhau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Banc Datblygu Cymru wedi bod yn gweithio i ddeall anghenion y farchnad a gofynion cyflawni ar gyfer datrysiad cymorth i gynyddu gweithgarwch ôl-osod mewn cartrefi perchen-feddianwyr yng Nghymru yn y sector 'gallu talu'.

Cynigir treialu cynllun yn 2023-24 a gaiff ei ddefnyddio i 'brofi a dysgu' yn y farchnad a chanolbwyntio ar y meysydd lle mae'r arian yn debygol o gael yr effaith fwyaf.

Bu'r gwaith a wnaed gyda Nesta yn hollbwysig er mwyn datblygu'r datrysiad. Roedd sawl cam i'r gwaith hwn o gynnal arolwg cychwynnol o 1,000 o berchnogion tai, casglu enghreifftiau o gynlluniau yn y byd go iawn, cyfweliadau â pherchen-feddianwyr yn y sector 'gallu talu' yn ogystal â threial mewnwelediadau ymddygiadol gyda thua 8,000 o berchnogion tai ledled y DU yn edrych ar sut mae pobl yn rhyngweithio â chynigion gwahanol posibl.

Mae Banc Datblygu Cymru bellach yn cydgasglu'r ymchwil a'r canfyddiadau mewn cynnig peilot. Mae hwn yn debygol o gynnwys mecanweithiau fel benthyciadau hirdymor dim llog/llog isel a gefnogir gan lefelau grant sylfaenol ar gyfer gweithgareddau penodol, a fydd yn creu cynnig cyllid hybrid.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 29.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai’r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am y cynnig cyllid hybrid sy’n deillio o waith Banc Datblygu Cymru a Nesta.
Dylai hyn gynnwys dyddiad targed ar gyfer cyflwyno ar draws y sector.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i ystyried sut y gallai'r ddwy gronfa eiddo bresennol ar gyfer adeiladwyr tai BBaCh – Cronfa Datblygu Eiddo Cymru a Chronfa Safleoedd Segur Cymru – gael eu defnyddio i gefnogi'r agenda newid hinsawdd. Bydd y Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd yn darparu rhaglen beilot sy'n cynnig gostyngiadau graddedig i ddatblygwyr ar gostau benthyciadau yn seiliedig ar faint o fesurau effeithlonrwydd ynni a charbon isel y maent yn eu cynnwys yn eu datblygiadau tai.

Bydd y Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd yn gweithio drwy ddarparu gostyngiadau ar ffioedd benthyca yn dibynnu ar faint o opsiynau carbon isel a gaiff eu cynnwys mewn cynlluniau. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr fodloni holl feini prawf arferol Cronfa Datblygu Eiddo Cymru a Chronfa Safleoedd Segur Cymru, ond os bydd datblygwyr BBaCh drwy'r cynlluniau hyn yn cynnwys opsiynau effeithlon o ran ynni a charbon isel mewn un neu fwy o'r tri chategori yn eu datblygiadau tai newydd, gallent fod yn gymwys i gael gostyngiadau ar ffioedd. Bydd y Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd yn defnyddio arian presennol o Gronfa Datblygu Eiddo Cymru a Chronfa Safleoedd Segur Cymru a byddai angen i'r cytundebau cysylltiedig fod yn gymwys i gael arian gan y Cronfeydd hyn heb ystyried y cymhelliant hwn.

Mae'n hanfodol bod pob datblygwr tai, mawr a bach, yn chwarae rôl allweddol ar y daith hon ac yn dod yn rhan o'r datrysiad drwy brosesau caffael perthnasol a mentrau fel y Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd.

Mae Banc Datblygu Cymru wedi bod yn gweithio i ddeall anghenion y farchnad a gofynion cyflawni ar gyfer datrysiad cymorth i gynyddu gweithgarwch ôl-osod mewn cartrefi perchen-feddianwyr yng Nghymru. Er mwyn datblygu cynnyrch sydd â'r siawns orau o lwyddo yn y farchnad ac sy'n gallu tyfu yn unol â'r anghenion, mae Banc Datblygu Cymru wedi bod yn ymchwilio ac yn cydweithio yn y ffyrdd canlynol:

- Adolygu cynlluniau llwyddiannus ac aflwyddiannus blaenorol er mwyn dysgu gwersi pwysig - gan gynnwys ymgysylltu â chymheiriaid yng Ngogledd Iwerddon, yr Almaen a'r Alban.
- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i ddeall y cynlluniau ar gyfer Nyth/Arbed yn y dyfodol a gwaith parhaus tîm y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a'r gwersi a ddysgwyd ganddo. Yn ogystal, mae Banc Datblygu Cymru yn aelod o Grŵp Gweithredu ar gyfer Datgarboneiddio Llywodraeth Cymru sy'n darparu mwy o fewnwelediad ac arbenigedd ar gyfer datblygu'r cynnyrch.
- Cydweithio â Nesta i ymchwilio i agweddau ac anghenion perchnogion tai mewn perthynas â gwelliannau gwyrdd i gartrefi.

Un o'r prif wersi a ddysgwyd o'r gwaith datblygu cychwynnol oedd bod cyflymder parhaus y newidiadau yn y maes hwn, o safbwynt polisi a thechnoleg, yn gallu bod yn rhwystr i wneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchion. Rhaid bod modd addasu unrhyw gynnig a gaiff ei lansio gan Fanc Datblygu Cymru i gyd-fynd â'r ddynameg hon er mwyn rhoi pethau ar waith yn gyflymach, gan gydnabod y brys yn y maes hwn. Cynigir treialu cynllun yn 2023-24 a gaiff ei ddefnyddio i ‘brofi a dysgu’ yn y farchnad a chanolbwyntio ar y meysydd lle mae'r arian yn debygol o gael yr effaith fwyaf.

Bu'r gwaith a wnaed gyda Nesta yn hollbwysig er mwyn datblygu'r datrysiad. Roedd sawl cam i'r gwaith hwn o gynnal arolwg cychwynnol o 1,000 o berchnogion tai, casglu enghreifftiau o gynlluniau yn y byd go iawn, cyfweliadau â pherchen-feddianwyr yn y sector ‘gallu talu’ yn ogystal â threial mewnwelediadau ymddygiadol gyda thua 8,000 o berchnogion tai ledled y DU yn edrych ar sut mae pobl yn rhyngweithio â chynigion gwahanol posibl.

Mae Banc Datblygu Cymru bellach yn cydgasglu'r ymchwil a'r canfyddiadau mewn cynnig peilot. Mae hwn yn debygol o gynnwys mecanweithiau fel benthyciadau hirdymor dim llog/llog isel a gefnogir gan lefelau grant sylfaenol ar gyfer gweithgareddau penodol, a fydd yn creu cynnig cyllid hybrid.

**Goblygiadau Ariannol –** Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/0323/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.cymru

21 Ebrill 2023

Annwyl Llŷr

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Argymhelliad 30 o waith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch sut a phryd y bydd bwlch cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn derbyn sylw, gan gynnwys diweddariad ar y cynnydd wrth ddatrys y problem hanesyddol mewn perthynas ag atebolrwydd am bensiynau.

Fel y gwyddoch, rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn bwriad cau'r bwlch cyllid yn barhaol – ac roedd hyn yn cynnwys rhoi sylw i atebolrwydd CNC am bensiynau. Rwyf wedi adolygu cyllidebau o fewn fy Mhrif Grŵp Gwariant, ar y cyd â chydweithwyr yn y Cabinet, gyda'r bwriad o roi sylw i fwlch cyllid CNC, gan sicrhau bod hyn yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd ar ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Gweinidogion.

O ganlyniad i'r gwaith ailbroffilio, mae'n bleser gennyf ddweud wrth y Pwyllgor fy mod wedi cytuno i roi cyllid ychwanegol i CNC gwerth £18.2 miliwn i'w dynnu i lawr yn 2023–24, yn ddarostyngedig i gynllun busnes wedi'i alinio â'r gweithgareddau maent wedi'u hamlinellu yn eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Rwy'n bwriadu ffurfioli'r trefniadau hyn yn y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin, i sicrhau nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei derbyn yn 2023–24.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel rhan o gyllideb ddrafft 2024–25  rwy’n bwriadu cynnwys yr £18.2 miliwn yma yn nyraniad sylfaenol CNC. Mae angen cydnabod bod y cyd-destun cyllidol yn parhau’n heriol iawn a bydd yn amodol ar broses cyllideb 2024-25. Fy ngobaith yw y gallwn gyflawni hyn er mwyn datrys bwlch cyllid CNC yn ogystal â mynd i’r afael ag atebolrwydd pensiynau CNC, sy’n rhan o’r £18.2 miliwn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

31 Mawrth 2023

Annwyl Julie

Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd

Mae dyfodol y Rhaglen Cartrefi Clyd (WHP) ac ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd o ddiddordeb mawr i'n Pwyllgor ac i'r rhanddeiliaid yr ydym yn ymgysylltu â hwy.

Mae'r argyfwng costau byw a waethygir gan gynnydd mwyfwy mewn biliau cynhesu tai â goblygiadau ar gyfer cyllid aelwydydd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredu ar frys i insiwleiddio cynifer o gartrefi â phosibl cyn y gaeaf nesaf. Daeth y rhaglen Arbed i ben ym mis Tachwedd 2021 ac mae cynllun Nyth i ddod i ben ddiwedd y mis hwn. Felly rydym yn ei chael hi'n anodd deall sut yr ydych yn bwriadu sicrhau nad oes dim bwlch yn y ddarpariaeth o fesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru. Rydym yn bryderus iawn ynghylch y diffyg eglurder parhaus ynghylch dyfodol y cynllun a'r methiant i osod amserlen glir ar gyfer y cynllun olynol.

Felly, byddwn yn croesawu cael ymateb i'r canlynol:

- Pryd fydd y Rhaglen Cartrefi Clyd nesaf yn dechrau? Beth yw'r dyddiad cychwyn disgwyliedig?
- Pryd fydd cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn dod i ben? A yw Nyth wedi'i ymestyn y tu hwnt i'w ddyddiad gorffen gwreiddiol, sef mis Mawrth 2023?
- A fydd bwlch yn y cymorth a ddarperir ar gyfer effeithlonrwydd ynni i aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd? Sut y byddwch yn lliniaru effaith y bwlch hwn dros fisoedd yr haf?

- Pryd y byddwch yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu tlodi tanwydd diwygiedig, (roedd eich ymateb i argymhelliad 2 yn ein hadroddiad yn nodi "yn 2023")?

- Yn ystod y Datganiad Busnes ar 21 Mawrth 2023 cadarnhaodd y Trefnydd y byddech yn cyflwyno datganiad ar y cynllun "cyn diwedd tymor yr haf". A fydd y datganiad hwn yn cynnwys manylion terfynol yr iteriad nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd, gan gynnwys arwydd clir o ba mor fuan y gellir rhoi'r cynllun ar waith? Os nad ydyw, a allwn gael dyddiad pendant ar gyfer cyflwyno rheoliadau i greu iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Clyd?

Er bod y gwaethaf o'r tywydd oer yn y gorffennol o ran gaeaf 2022-23, mae'r rhagolygon ar gyfer llawer o aelwydydd yn parhau i fod yn heriol. Mae'n hanfodol ein bod mewn sefyllfa i helpu i gefnogi cynifer o aelwydydd â phosibl gyda mesurau effeithlonrwydd ynni yn y misoedd nesaf, cyn y gaeaf nesaf. Felly, rydym yn eich annog i egluro bwriadau Llywodraeth Cymru yn hynny o beth.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dechrau tymor yr haf, sef 24 Ebrill 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ac at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadierydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

28 Mawrth 2023

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Rwy'n ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyflawni Metro De Cymru, ac yn bwysicach na dim, ein sefyllfa ddiweddaraf o ran ein rhagamcaniadau cost. Mae'r diweddariad hwn yn dilyn darn sylweddol o waith i werthuso costau cyffredinol y rhaglen, a'r amserlenni, i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r prosiect yn hyderus, yn unol ag amserlen glir gan barhau i reoli costau mor agos â phosibl. Rydym yn cydnabod y buddsoddiad a'r cyfleoedd sylweddol y mae'r prosiect hwn yn eu cynrychioli, felly rydym am fod mor dryloyw â phosibl ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf.

Fel y gwyddoch, mae Metro De Cymru yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid trafnidiaeth ar gyfer pobl De-ddwyrain Cymru. Bydd yn gwella bywydau pobl ac yn sicrhau mai trafnidiaeth gynaliadwy yw'r ffordd hawsaf o deithio. Pan gadarnhawyd cyllid ar gyfer prosiect hanesyddol Metro De Cymru yn 2018, darparwyd £738m i ddechrau i gyflawni'r prosiect unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Roedd elfennau o'r costau gwreiddiol yn seiliedig ar brisiau 2015. Bydd y rhaglen uchelgeisiol yn trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhwydwaith modern ac integredig o reilffyrdd, bysiau a theithio llesol er mwyn gwella cysylltedd a gwneud teithio cynaliadwy yn haws ar draws De Cymru.

Pan gafodd y cyllid cychwynnol ei ymrwymo, fyddai neb wedi gallu rhagweld beth fyddai'n digwydd yn y pum mlynedd nesaf. Yn ystod ein cyfnod trawsnewid, rydym wedi gweld effaith ddigynsail pandemig byd-eang COVID-19, effaith Brexit a'i effaith ar y gweithlu, ac argaeledd deunyddiau, ac mae hyn i gyd wedi cael ei ddwysáu gan y rhyfel yn Wcráin. Mae'r ffactorau annisgwyl hyn yn golygu ein bod wedi gorfod addasu cynlluniau cyflawni a chyllideb derfynol ddisgwyliedig y prosiect.

**Rhagamcanion Cost**
Yn dilyn yr ymarfer ailwerthuso helaeth a gynhaliwyd gan dîm prosiect TrC ac AIW, rydym nawr yn rhagweld y bydd cost derfynol prosiect Metro De Cymru oddeutu £1bn. Mae'r cynnydd a ragwelir o ganlyniad i'r cynnydd disgwyliedig mewn costau a amlinellir isod.

| Eitem | Costau Deunyddiau / Chwyddiant | COVID-19 a Brexit | Cyfyngiadau Seilwaith | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| % Dyraniad y cynnydd i AFC | 37% | 34% | 29% | 100% |
| Cost | £113.4m | £104.2m | £88.9m* | £306.7m |

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Wrth i ni symud tuag at gyfnod economaidd mwy sefydlog gobeithio, ond sydd eto'n heriol, rwy'n teimlo ei bod yn briodol i chi gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ar hyn o bryd a'r hyn rydym yn ei wneud i liniaru'r heriau rydym wedi'u hwynebu.

**Beth rydym wedi bod yn ei wneud**
Yn wyneb yr heriau allanol a amlinellir uchod, mae tîm y prosiect wedi canolbwyntio ar ail-alinio ein rhaglen ar sail yr amserlenni mwyaf cyraeddadwy, a sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran costau. Rydym wedi gwneud hyn drwy gydweithio â'n partneriaid cyflawni seilwaith drwy ein Cynghrair Craidd, gyda chraffu ychwanegol a chyngor annibynnol gan nifer o arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant. Ar hyn o bryd, mae'r timau'n canolbwyntio'n bennaf ar gomisiynu'r trenau newydd sbon ar gyfer y Metro (ar y trên ac ar ochr y rheilffordd), gan sicrhau ffrydiau cyllido a dulliau rheoli ar gyfer y gost gyffredinol ac amserlen cyflawni'r prosiect.

Rydym hefyd wedi newid y dull gweithredu ar gyfer y rhaglen seilwaith (traciau, signalau, trydaneiddio ac ati) er mwyn darparu rhan allweddol o lwybr wedi'i uwchraddio cyn newidiadau eraill. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu darparu'r trenau newydd cyn gynted â phosibl, gan ddiogelu'r elfennau allweddol sydd eu hangen i leihau'r risg o golli mynediad at Gyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Mae nifer o opsiynau eraill wedi cael eu hystyried yn drylwyr er mwyn lleihau costau ac effaith y prosiect.

Fel rhan o hyn, rydym wedi cryfhau ein mesurau rheoli prosiect a goruchwylio'r rhaglen ymhellach ac wedi integreiddio'r gwaith o reoli'r broses o gyflawni'r rhaglen gydag Amey Infrastructure Wales (AIW).

Mae hyn yn cynnwys mwy o haenau annibynnol o lywodraethu, mesurau rheoli rhaglen ychwanegol, atebolrwydd ar lefel cyfarwyddwyr ar gyfer cyflawni drwy'r gadwyn gyflenwi, a phrynu rhagor o ddeunyddiau adeiladu ymlaen llaw i sicrhau eu bod ar gael a diogelu'r rhaglen rhag pwysau chwyddiant ansicr.

Mae'r mesurau eraill rydym wedi'u rhoi ar waith fel rhan o'n gweithgareddau ailosod llinellau sylfaen yn cynnwys;

- Grŵp llywio lefel weithredol wythnosol gyda chynrychiolwyr o TrC a Phrif Swyddog Gweithredol, Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwyr Busnes Amey.
- Ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar ddulliau integredig o reoli'r seilwaith, y cerbydau rheilffyrdd a pharodrwydd y sefydliad ar gyfer mynediad i'r gwasanaeth system rheilffyrdd.
- Gwell adroddiadau rheoli busnes misol ar gyfer seilwaith.
- Caffael llawer o ddeunyddiau adeiladu arbenigol ymlaen llaw er mwyn diogelu amserlenni'r rhaglen.
- Arbenigwyr blaenllaw yn y diwydiant yn adolygu ac yn herio'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn annibynnol.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- Pwyllgor Prosiectau Mawr TrC yn adolygu perfformiad y rhaglen bob chwarter, dan gadeiryddiaeth un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Bwrdd. Mae'r adolygiad manwl hwn yn ymdrin â phob agwedd ar raglen Llinellau Craidd y Cymoedd.

**Ffactorau allanol**
Isod, ceir esboniad pellach o'r cynnydd disgwyliedig mewn costau oherwydd y ffactorau allanol a restrir uchod.

**Argaeledd/cynnydd mewn costau deunyddiau i gyflenwyr:**

- Mae cynnydd yn y galw byd-eang yn y sector adeiladu, ynghyd ag effeithiau niferus a chymhleth y pandemig ochr yn ochr â materion logisteg, wedi arwain at brinder ac oedi na welwyd ei debyg o'r blaen. Yn y pen draw, mae hynny wedi arwain at gynnydd mewn prisiau deunyddiau a llafur ar draws yr economi.
- Gan ddefnyddio data gan y Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu (BCIS) o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), mae cost y rhaglen wedi'i diweddaru yn ystyried ac yn darparu ar gyfer tueddiadau cost deunyddiau rhwng 2020 a 2021, gan dybio nad oes unrhyw gynnydd amlwg pellach yn ystod 2022.
- Mae data gan BCIS yn dangos y cynnydd mwyaf mewn 40 mlynedd mewn costau adeiladu ym mis Tachwedd 2021. Er enghraifft, roedd y symudiad pris yn Ch1 i Ch3 y flwyddyn honno ar gyfer Pren, Dur a Metelau Sylfaenol wedi cynyddu 78.9%, 77.4% a 24.8% yn y drefn honno.
- Gydag oddeutu 7,200 tunnell o ddur moel ar gyfer y rhaglen Cyfarpar Llinellau Uwchben, i gynnwys costau sy'n gysylltiedig ag amser, mae'r elfen hon o ran cost deunyddiau crai yn unig, cyn eu saernïo, wedi cynyddu oddeutu £6.8m (ym mis Ebrill 2022).

**COVID-19**

- Roedd effaith COVID-19 wedi achosi colledion cynhyrchiant, gan arwain at oedi yn y rhaglen, a arweiniodd at gynnydd mewn costau. Drwy gydol y pandemig, cafodd yr effaith ar gynhyrchiant ar y safle ei dwysáu ymhellach gan ansicrwydd o ran a oedd gweithlu ar gael, mesurau cadw pellter cymdeithasol ac oedi o ran deunyddiau.
- Mae'r estyniad amser a brofwyd ar Linellau Craidd y Cymoedd yn debyg i'r hyn a brofwyd gan brosiectau seilwaith mawr eraill yn y DU. Yn ystod y pandemig, mae HS2 a Hinkley Point wedi colli cynhyrchiant ac yn parhau i brofi hynny. Mae hyn oherwydd prinder gweithlu, gwybodaeth am ddylunio'n cael ei throsglwyddo'n wael oherwydd gweithio o bell a deunyddiau'n cyrraedd yn hwyr, gan arwain at oedi wrth gwblhau prosiectau.
- Mae dibyniaeth y sector adeiladu ar lif cadwyni cyflenwi deunyddiau byd-eang yn parhau i darfu ar bethau, ac er bod prinder wedi cael sylw mewn ambell faes, mae mannau cul yn y gadwyn gyflenwi ddomestig hefyd yn parhau i effeithio ar gynhyrchiant; gydag oedi mewn amser cyrraedd dur, pren ac agregau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Brexit**

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) sydd wedi bod yn llywodraethu'r berthynas rhwng y DU a'r UE ers mis Ionawr 2021. Er bod hyn yn well na dim cytundeb o gwbl, mae gadael marchnad sengl yr UE yn dal i fod wedi cael effaith ar y diwydiant adeiladu mewn nifer o ffyrdd:

- Effaith ar allforion: Er bod y DU wedi sicrhau masnach ddi-dariff gyda'i chymdogion yn yr UE, dim ond i gynhyrchion 'tarddiadol' y mae hyn yn berthnasol, sef cynhyrchion sy'n tarddu o'r UE. Mae hyn yn peri problemau i fusnesau sydd â chadwyni cyflenwi cymhleth; offer signalau yn achos Llinellau Craidd y Cymoedd. Er enghraifft, mae'r amser mae'n ei gymryd i gael rhywfaint o'r sglodion data hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr offer signalau wedi cynyddu o bum wythnos i 16 wythnos ym mis Ionawr 2021. Mae hyn wedi arwain at effaith uniongyrchol ar ddarparu ein system signalau newydd.
- Effaith ar y gweithlu: Daeth y rhyddid i symud rhwng y DU a'r UE i ben ym mis Ionawr 2021. O dan gyfreithiau mewnfudo newydd, mae mudwyr o'r UE bellach yn rhwym wrth system sy'n seiliedig ar bwyntiau er mwyn bod yn gymwys i gael fisa. Mae hyn wedi cael effaith ar rywfaint o adnoddau'r rhaglen.

**Cyfyngiadau seilwaith**

- Mae rhywfaint o oedi o ran seilwaith wedi cael ei achosi gan wybodaeth anghyflawn neu wybodaeth ddim ar gael am rai asedau sydd wedi arwain at waith dylunio, arolygu neu beirianneg ychwanegol.
- Mae heriau seilwaith annisgwyl wedi codi hefyd, er enghraifft nid oedd cyflenwad pŵer presennol y National Grid yn ddigon cadarn yng Nghwm Rhymni ac mae wedi golygu bod angen Cyfarpar Llinellau Uwchben ychwanegol ar gyfer y trenau newydd.
- Mae darganfod nifer o gyfleustodau statudol arwyddocaol yn golygu bod angen dargyfeirio sylweddol. Mae hyn wedi achosi oedi wrth osod y system Llinell Uwchben a'r trac newydd, ar draws rheilffyrdd Aberdâr a Threherbert yn benodol. Mae TrC yn ymgysylltu â darparwyr cyfleustodau ac yn monitro'r gwaith helaeth a pharhaus o ddargyfeirio oddeutu 10km o'r ystad rheilffyrdd i'r briffordd leol.
- Enghraifft arall o newid sylweddol ac annisgwyl mewn dyluniad yw yn ardal Cathays, Caerdydd, lle mae sganiwr MRI ym Mhrifysgol Caerdydd yn golygu na allwn osod cyfarpar llinellau uwchben oherwydd problemau cydnawsedd electromagnetig, sydd wedi golygu bod angen newid dyluniad y system.

**Cyfyngiadau dylunio**

Newidiadau i'r rhaglen ddylunio am nifer o resymau:

- Argaeledd adnoddau dylunio – Rydym yn cystadlu yn erbyn rhaglenni seilwaith mawr eraill yn y DU, sy'n cael eu dwysáu gan dwf mawr yn y diwydiant adeiladu ar ôl COVID.
- Rhaglen – argaeledd/dilysrwydd data mewnbwn sy'n effeithio ar ddechrau/cwblhau'r cynllun.
- Elfennau i'w Cyflawni o ran Dylunio – newidiadau i'r dyluniad i'w cwblhau o ganlyniad i ddatblygu saernïaeth system, aeddfedrwydd y dylunio, dylanwadau mewnol ac allanol.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Chwyddiant**
Mae chwyddiant wedi cael ei ailwerthuso o werth contract y tendr i'r cyfraddau presennol, gan gyfrannu at gost cyflawni'r rhaglen wedi'i diweddaru'n gyffredinol.

Mae'r asesiad o'r gyllideb bresennol wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio data tueddiadau o Ganllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth Llywodraeth y DU. Yn gryno, defnyddiwyd cyfartaledd pwysedig CPI ac RPI i asesu a chymhwyso'r chwyddiant tybiedig ar Gostau i'w Cwblhau (CTC).

Mae'n amlwg bod crynodeb lefel uchel i'w weld gyda lefelau chwyddiant yn 1.3% ym mis Rhagfyr 2019, a 10% heddiw.

**Y ffordd ymlaen**
Mae tîm y prosiect yn gweithio'n eithriadol o galed i uwchraddio'r seilwaith sydd ei angen i gyflwyno'r trenau newydd – trenau Dosbarth 231s, Dosbarth 756 a Dosbarth 398s – ar draws rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, gan sicrhau, ar yr un pryd, bod y gwaith hwn yn cefnogi'r cynnydd mewn amlder gwasanaethau drwy newidiadau i amserlenni yn y dyfodol.

Mae adolygiad o'r opsiynau sydd ar gael wedi cael ei gwblhau ac er mwyn lleihau costau ac oedi gyda threnau newydd sy'n cyrraedd y rhwydwaith, rydym nawr yn blaenoriaethu signalau a thrydaneiddio rhan allweddol o'r cledrau ar rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n dod yn 'drac profi' i bob pwrpas.

Ar gyfer y dull cyflawni hwn, mae ardal rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd sy'n cael ei galw'n TAM (Treherbert, Aberdâr a Merthyr) wedi'i rhannu'n ddwy ran, sef:
- TAM A – Radur i Bontypridd, Aberdâr and Merthyr; a,
- TAM B – Treherbert.

Oherwydd bod gofyn trefnu comisiynu signalau ar draws rhwydwaith rheilffyrdd ehangach Prydain Fawr, ynghyd â chyfyngiadau ar signalau, adnoddau dylunio ac adeiladu, nid yw'n ymarferol cyflawni gwaith TAM a Chaerdydd – Rhymni (CAR) yn ddiogel ar yr un pryd.

Mae cwblhau'r gwaith CAR yn hwyluso cyflwyno'r amserlen pedwar trên yr awr ar y TAM a'r CAR.

**Crynodeb**
Er gwaethaf yr heriau annisgwyl a wynebodd tîm y prosiect dros y tair blynedd diwethaf, rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i gyflawni prosiect trawsnewid Metro De Cymru a darparu'r gwerth gorau posibl am arian i bobl Cymru ar yr un pryd.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Wrth gwrs, mae'r cynnydd mewn costau a'r oedi gyda'r prosiect yn siomedig iawn, ond nid yw hyn yn anghyffredin ar gyfer prosiect uchelgeisiol iawn o'r maint hwn. Fodd bynnag, mae tîm y Metro wedi rheoli'r heriau arferol hyn yn dda, ond mae oedi yn y rhaglen wedi effeithio'n sylweddol arnynt oherwydd y pandemig a phwysau chwyddiant llawer uwch na ragwelwyd yn ystod cam cynllunio'r prosiect hwn.

Yn ddiweddar, rydym wedi rhoi'r cyntaf o'n trenau Metro De Cymru newydd sbon ar Reilffordd Rhymni. Dyma ddechrau cyfnod cyffrous iawn o newid a fydd yn digwydd dros y blynyddoedd nesaf. Rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno Cerbydau'r Metro i ddepo newydd Ffynnon Taf, a hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch gwahodd chi a'r Pwyllgor i weld y gwaith sydd wedi cael ei wneud.

Wrth gwrs, rwyf bob amser ar gael i'r Pwyllgor, i ymddangos ger eich bron ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn gywir

James Price

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Peredur Owen-Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

12 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Mawrth, yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar welliannau posibl i'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol. Trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth. Rwyf wedi nodi isod y pwyntiau allweddol yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

Nid oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom gan y Gweinidog i lywio ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 mor gynhwysfawr ag y bu mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, nid oedd yn cynnwys tabl Llinellau Gwariant yn y Gyllideb na naratif o'r Llinellau Gwariant hyn fel y gwnaethom ofyn amdanynt. Er y darparwyd y wybodaeth hon yn ddiweddarach, byddem wedi disgwyl iddi gael ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf, o ystyried ei bod yn hanfodol i'n dealltwriaeth o benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i Lywodraeth Cymru gynnwys asesiad o effaith carbon y gyllideb ddrafft mewn dogfennaeth yn y dyfodol. Er i ni gael ein hysbysu gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o ran asesu effeithiau carbon ei phenderfyniadau gwariant, ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn nogfennaeth cyllideb ddrafft 2023-24. Nid oedd unrhyw esboniad o sut yr aseswyd effeithiau carbon ac, yn bwysicach, nid oedd gwybodaeth am ganfyddiadau'r asesiadau hyn.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, mae cyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys dadansoddiad o effaith carbon cyllideb ddrafft 2023-24. Rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried a ellid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer cyllidebau drafft yn y dyfodol at ddiben darparu gwybodaeth lefel uchel i'r Senedd i gefnogi gwaith craffu.

Yn fwy cyffredinol, un o wendidau allweddol proses y gyllideb ddrafft yw'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. Roedd cyllideb ddrafft 2023-24 yn destun amserlen graffu fyrrach, a ddisgynnodd dros

gyfnod y Nadolig. Roedd hyn yn golygu mai cyfyngedig oedd yr amser oedd ar gael ar gyfer dadansoddi cyn sesiwn graffu'r Gweinidog, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023, ac adrodd ar ein canfyddiadau cyn y dyddiad cau y cytunwyd arno. Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol bod ein profiad o weithio'n unol ag amserlen graffu fyrrach yn rhywbeth sydd gennym yn gyffredin â phwyllgorau eraill.

Yn olaf, daeth ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2023-24 i law ar ôl i fusnes ddod i ben y diwrnod cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol. Mae hyn yn destun gofid mawr gan ei fod yn golygu mai prin oedd yr amser i'r Aelodau ystyried yr ymateb cyn y ddadl. Rydym yn pryderu bod hyn yn tanseilio'r broses graffu. Serch hynny, rydym yn falch o ddweud fod ymateb y Gweinidog yn un cynhwysfawr ar y cyfan.

Gobeithio y bydd yr uchod yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 4.7

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.Cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

19 Ebrill 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithdy gydag aelodau o'r Senedd Ieuenctid.

### Digwyddiad i randdeiliaid: Wrecsam

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid eleni yn cael ei gynnal ar gampws Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Catrin Finch) yn Wrecsam fore Iau 15 Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion disgwyliedig yn y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'u safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad. Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn

dod i'r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clercio erbyn 22 Mai, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddCyllid@Senedd.Cymru.

### Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae'r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth hydredol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

### Senedd Ieuenctid Cymru

Y llynedd, i ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid. Roedd y profiad o glywed yr Aelodau ifanc hyn yn siarad yn agored am y materion sy'n ymwneud â nhw ac sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt yn hynod fuddiol. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelodau ifanc i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 12 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfranogiad Cadeiryddion y Pwyllgorau, ynghyd â'r Aelodau eraill, fel rhan o'r ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd yn llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Y dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen ar ôl i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd y gwaith craffu a wneir ar y gyllideb yn y Senedd yn destun gwella parhaus, a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses honno. Fel y gwyddoch, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar gynigion i ddiwygio'r Protocol ar gyfer Proses y Gyllideb, sy'n amlinellu'r

ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Yn ogystal, yn ystod cylch cyllideb y llynedd, cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â'r pwyllgorau eraill ar y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, gyda'r bwriad o geisio gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu. Ysgrifennais at y Cadeiryddion ar y mater hwn ar 8 Mawrth, ac rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgorau sydd wedi ymateb. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am y datblygiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

6 Ebrill 2023

Annwyl gyfeillion,

Archwilio Cymru – Cynhwysiant digidol yng Nghymru

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 30 Mawrth 2023, cafodd y Pwyllgor ei friffio gan Archwilio Cymru ar ei adroddiad, Cynhwysiant Digidol yng Nghymru.

Ar ôl ystyried ei gynnwys, roeddem yn teimlo y gallai fod o ddiddordeb i chi a'ch Pwyllgorau. Gan hynny, rydym yn awgrymu bod eich Pwyllgorau yn ystyried yr adroddiad fel rhan o'ch gwaith parhaus ac yn y dyfodol. Rwyf wedi atodi copi o'r adroddiad er gwybodaeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

19 Ebrill 2023

Annwyl Llyr,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Mawrth yn nodi cwestiynau'r Pwyllgor ynghylch y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Adnoddau a Gwastraff. Rwy'n ymateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y maes polisi hwn.

Mae'r Fframwaith Cyffredin yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydweithio o fewn y meysydd sy'n cynnwys effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau. Mae ymatebion i'r cwestiynau a osodwyd gan y Pwyllgor wedi'u nodi isod.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi am eich gwaith craffu parhaus mewn perthynas â'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Y Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Adnoddau a Gwastraff**

Cwestiwn 1. Allwch chi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y fframwaith a'i effaith ar gymhwysedd y Senedd? Ydych chi'n fodlon nad yw'r fframwaith yn cyfyngu ar gymhwysedd y Senedd?

Ym mis Hydref 2017, cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar set o egwyddorion a fyddai'n sail i'r rhaglen fframweithiau. Mae'r ail egwyddor yn datgan:

Bydd fframweithiau yn parchu'r setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig, a byddant felly:

- yn seiliedig ar gonfensiynau ac arferion sefydledig, gan gynnwys na fydd cymhwysedd y sefydliadau datganoledig fel arfer yn cael ei addasu heb eu caniatâd;
- yn cynnal, fel isafswm, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol pob tiriogaeth fel y mae rheolau cyfredol yr UE yn ei ganiatáu;
- yn arwain at gynnydd sylweddol mewn pwerau gwneud penderfyniadau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r fframwaith yn parchu'r egwyddorion hyn yn llawn.

Cwestiwn 2. Allwch chi roi rhagor o fanylion am y ddau fath o benderfyniadau polisi fydd yn cael eu gwneud o fewn y fframwaith a pha rôl fydd y Senedd neu randdeiliaid yn ei chwarae yn y broses o wneud penderfyniadau?

Mae cwmpas y fframwaith yn adlewyrchu'r gylchred polisïau o ran ymdrin ag agweddau sy'n ymwneud â datblygu polisïau a'u cyflawni. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod arfer hirdymor o gydweithio gweithredol rhwng y pedair llywodraeth yn y maes hwn o ran agweddau sy'n ymwneud â chreu polisïau a'u gweithredu. Mae'r penderfyniadau y gellir eu gwneud o fewn y fframwaith yn adlewyrchu'r broses y mae'n ei amlinellu sy'n cynnwys:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**



I. Nodi gwybodaeth mewn perthynas â'r gwaith o ddatblygu polisïau a'u cyflawni ym mhob gwlad, archwilio unrhyw rhyngddibyniaethau a chyfleoedd i gydweithio.
II. Datrys materion.
III. Cyfeirio materion at y weithdrefn drosfwaol o ran osgoi a datrys anghydfodau a amlinellir yn y strwythurau rhynglywodraethol priodol.
IV. Adolygu a diwygio'r Fframwaith a'r Concordat.

Ni fydd y Fframweithiau Cyffredin yn newid y modd rydym yn ymwneud â'r Senedd na'r modd rydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid. At hynny, rydym yn rhagweld y bydd y fframwaith yn gweithredu ochr yn ochr â'r gylchred polisïau arferol wrth i wledydd ddatblygu polisïau yn unigol ac ar y cyd.

**Ymwahanu**

Cwestiwn 3. Allwch chi ddarparu diffiniad neu feini prawf ar gyfer yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn "effaith amlwg" o dan y fframwaith at ddibenion datrys anghydfod?

Yn y maes hwn, ceir enghreifftiau o bolisïau sy'n cael eu cyflawni ar y cyd, yn ogystal ag enghreifftiau hirdymor lle y mae pob gwlad wedi gweithredu dull gwahanol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion a pholisïau unigol pob gwlad. Y man cychwyn ar gyfer y fframwaith hwn yw sefyllfa lle y dylid, fel isafswm, gynnal yr hyblygrwydd sylweddol a ganiatawyd gan reolau blaenorol yr UE. Adlewyrchir hyn yn yr egwyddorion sy'n sail i'r Fframweithiau Cyffredin.

Wrth gyfeirio at effaith y gellir ei dangos, mae'r Fframwaith yn pwysleisio'r angen am dystiolaeth sy'n dangos maint yr effaith. Yna, mae'r Fframwaith yn darparu strwythurau llywodraethu a phrosesau sy'n seiliedig ar gonsensws ar gyfer ystyried effaith newidiadau polisi a'u rheoli.

Wrth wneud hynny, mae'r Fframwaith yn cydnabod bod gwahaniaethau mewn polisi a dulliau gweithredu wedi bod yn nodwedd yn y maes hwn ers tro ac yn parhau i fod wrth symud ymlaen. Mae hyn yn cydnabod yr hyblygrwydd a ganiatawyd o fewn y setliadau datganoli.

Cwestiwn 4. Allwch chi ddarparu unrhyw enghreifftiau o bolisïau Llywodraeth Cymru y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn ystod tymor y Senedd hon o dan y fframwaith hwn a allai gael "effaith amlwg" ar barti arall?

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**



Mae sawl polisi yn cael ei gyflwyno yn ystod tymor y Senedd hon, rhai sy'n benodol i Gymru a rhai sy'n berthnasol i sawl gwlad neu y DU gyfan a allai achosi effeithiau posibl. Bydd gweithio o fewn Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff yn fodd o helpu i sicrhau bod y materion hynny yn cael eu hystyried a'u rheoli. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys y gwaharddiadau ar gynhyrchion Plastig Untro a'r Cynllun Dychwelyd Ernes.

**Strwythurau newydd**

Cwestiwn 5. Allwch chi esbonio rôl y gweithgor adnoddau a gwastraff? Allwch chi ddarparu'r rhesymeg dros y newid yn amlder cyfarfodydd y gweithgor a phryd y bydd y newid hwn yn digwydd?

Rôl y gweithgor yw dod â'r swyddogion perthnasol o'r Partïon ynghyd er mwyn trafod y dulliau deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd gwastraff ac adnoddau a hynny yn rhan o'r dull gweithredu ehangach o gyflawni economi gylchol. Mae rôl y gweithgor hefyd yn cynnwys:

> Hwyluso'r gwaith o ddatblygu polisïau amlochrog yn ogystal â datblygu dulliau gweithredu polisïau cyffredin a chytuno arnynt pan fo hynny'n briodol; rheoli gwahaniaethau barn posibl mewn modd sy'n parchu'r Setliadau Datganoli, cydgysylltu prosesau cyfathrebu a meithrin cysylltiadau ag aelodau seneddol a rhanddeiliaid; adolygu'r fframwaith a'i ddiwygio yn unol â'r Drefn Adolygu a Diwygio yn ogystal ag uwchgyfeirio materion yn unol â'r broses osgoi a datrys anghydfodau pe bai angen hynny.

Yn dilyn y cyfnod cychwynnol o gyfarfodydd misol a gynhaliwyd er mwyn sefydlu'r grŵp, mae'r gweithgor cyffredinol bellach yn cyfarfod bob chwarter. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn parhau i gyfarfod bob mis er mwyn trafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir sy'n enghraifft o'r modd y bwriedir i'r grŵp gyfarfod rhwng y cyfarfodydd chwarterol pan fo materion pwysig i'w trafod.

Cwestiwn 6. Allwch chi roi rhagor o fanylion am ddiben ac aelodaeth yr is-grwpiau, y bwrdd prosiect ar y cyd, a'r pwyllgor addasu technegol a sefydlir gan y gweithgor?

Mae pwrpas yr is-grwpiau yn deillio o'r hyn a nodir uchod o ran pwrpas y Gweithgor Adnoddau a Gwastraff, sef dod â swyddogion perthnasol ynghyd er mwyn trafod materion perthnasol sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff. Mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**



strwythurau llywodraethu'r Fframwaith wedi'u llunio fel bod modd eu defnyddio ar sail fesul achos fel bo angen. Gwnaethpwyd hyn, er enghraifft, er mwyn trafod y gwaharddiadau ar gynhyrchion Plastig Untro.

**Deddfwriaeth y DU**

Cwestiwn 7. Allwch chi esbonio sut y bydd darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU yn rhyngweithio â'r fframwaith ac a gaiff y fframwaith ei ddiweddaru i gyfeirio at y broses eithrio y cytunwyd arni ym mis Rhagfyr 2021?

Mae'r pedair llywodraeth wedi ailddatgan eu hymrwymiad i sefydlu Fframweithiau Cyffredin, sydd yn bwysicach fyth yng nghyd-destun Deddf y Farchnad Fewnol a'r bygythiad difrifol y mae'n ei hachosi i ddatganoli. Fodd bynnag, mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn parhau yn ei le a rhaid ei barchu. Fel y nodir uchod, un o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r Fframweithiau Cyffredin yw y dylent gynnal, fel isafswm, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol bob tiriogaeth fel y caniateir gan reolau cyfredol yr UE. Mae'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Dychwelyd Ernes yn ogystal â dull gwahanol ar gyfer cynhyrchion Plastig Untro wedi bod yn eu lle cyn i'r DU ymadael â'r UE ac maent yn gwbl dderbyniol o fewn marchnad gyffredin yr UE.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir nad ydym yn gwrthwynebu'r egwyddor o farchnad fewnol ar gyfer y DU ac nad ydym ychwaith yn gwrthwynebu cyfundrefn cymorthdaliadau ar gyfer y DU gyfan, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU Llywodraeth y DU yn mynd y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen er mwyn sicrhau cydweithio economaidd a rheoleiddiol rhwng gwledydd y DU.

Gan ystyried natur hynod ddadleuol Deddf y Farchnad Fewnol yn ogystal ag ymgyfreitha posibl yn y dyfodol, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol diweddaru dogfennau'r fframwaith i gyfeirio at y broses eithrio y cytunwyd arni ym mis Rhagfyr 2021.

**Rhwymedigaethau rhyngwladol**

Cwestiwn 8. Allwch chi ymhelaethu ar oblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar y fframwaith?

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Fframweithiau Cyffredin yn dangos bod cydweithio rhynglywodraethol da yn bosibl ac y gellir rheoli cydweithio a rheoli gwahanol ddulliau o weithredu polisïau drwy drafod a chydweithio adeiladol.

Mae strwythurau'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer meithrin cysylltiadau yn gynnar yn cael eu defnyddio yn ystod proses Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi nodi'r Fframweithiau Cyffredin perthnasol yn gyd-destun priodol ar gyfer y gwaith o ddatblygu Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

Ni fydd Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn cael unrhyw effaith ar allu y Fframwaith hwn i weithredu. Fodd bynnag, mae Gweithgor Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff yn sicrhau'r cyfle i oruchwylio'r gwaith o ddadansoddi Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Mae cyfarfodydd pwrpasol wedi'u trefnu er mwyn sicrhau bod trafodaethau yn cael eu cynnal fel y darperir ar eu cyfer yn y Fframwaith. Er bod angen cynnal gwaith manwl rhwng swyddogion cyfatebol ar lefel bolisi, bydd aelodau'r Gweithgor yn cynnal y gwaith goruchwylio gyda'i gilydd a bydd strwythurau'r Fframwaith Cyffredin yn parhau i fod yn gymwys.

Cwestiwn 9. Allwch chi esbonio sut y bydd y fframwaith yn rhyngweithio â thrafodaethau masnach ryngwladol ac a fyddai darpariaethau perthnasol sy'n cael eu cytuno mewn trafodaethau masnach yn ddarostyngedig i'r broses fframwaith cyffredin hon?

